

HYDREF 2019

Astudiaeth Economaidd o Ddwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro

Adroddiad Terfynol

Cynnwys

	Tudalen
1 Cyflwyniad	1
1.1 Trosolwg	1
1.2 Pwrpas yr Astudiaeth Economaidd Fwy na Lleol	1
1.3 Strwythur yr Astudiaeth Economaidd Fwy na Lleol	2
2 Man Cychwyn Mwy na Lleol: Y Cyd-destun a'r Man Cychwyn	5
2.1 Trosolwg	5
2.2 Man Cychwyn 'Mwy na Lleol': Diffinio Ardal yr Astudiaeth	5
2.3 Man Cychwyn yr Astudiaeth Fwy na Lleol: Gweledigaethau Cychwynnol y Polisi Economaidd	6
2.4 Man Cychwyn yr Astudiaeth Fwy na Lleol: Safleoedd Strategol	8
3 Proffil o'r Ardal Fwy na Lleol	10
3.1 Nodweddion Gofodol	10
3.2 Nodweddion Demograffig	11
3.3 Nodweddion Economaidd	12
3.4 Diagram allweddol	14
4 Yr Ardal Fwy na Lleol: Cryfderau a Gwendidau Economaidd	15
4.1 Trosolwg	15
4.2 Yr Ardal Fwy na Lleol: Sectorau Allweddol	16
5 Yr Ardal Fwy na Lleol: Adeiladu ymyraethau yn seiliedig ar gyfleoedd a bygythiadau o fewn y farchnad	26
5.1 Trosolwg	26
5.2 Ymyraethau Sector	27

5.3	Ymyraethau Gofodol	36
5.4	Rhwydweithiau ac Ymyraethau ar Sail Lle	41
6	Alinio'r Galw a'r Ymyraethau Economaidd â Safleoedd sydd ar Gael	40
6.1	Trosolwg	40
6.2	Diffinio'r galw	40
6.3	Diffiniad o Safleoedd Strategol a'u Hargaeledd	43
6.4	Alinio'r Galw a'r Ymyraethau Economaidd â Safleoedd sydd ar Gael	45
7	Casgliadau	46
7.1	Trosolwg	46
7.2	Ymyraethau i gefnogi gweledigaeth economaidd a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf	46
7.3	Targedau a Galw Meintiol	48
7.4	Safleoedd a argymhellir	48
Atodiad A	Adolygiad Llenyddiaeth	
Atodiad B	Adolygiad Llinell Sylfaen Cyflym	
Atodiad C	Adolygiad Asesu Strategol	

1 Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Mae Ove Arup and Partners ('Arup') wedi cael eu comisiynu gan Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gynnal astudiaeth ddwy sir, fwy na lleol, o economi holl ardaloedd y cynghorau sir.

Pwrpas yr astudiaeth yn y pen draw yw creu sail i gynllunio darpariaeth tir ac eiddo strategol yn y dyfodol ar gyfer gweithgareddau economaidd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Drwy ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol, adolygiad manwl o lenyddiaeth yn gysylltiedig â mentrau sy'n bodoli eisoes yn yr ardal a thystiolaeth anecdotaidd a gafwyd drwy ymgysylltu ag asiantau marchnad a busnesau allweddol, nod y Strategaeth yw canfod a oes diffyg cyfatebiaeth ar hyn o bryd rhwng y cyflenwad o dir strategol ar gyfer cyflogaeth a'r galw amdano. Yn ogystal â hynny mae'n gwneud argymhellion ynghylch ymyraethau cadarnhaol a allai fod o gymorth i gefnogi twf economaidd.

Canlyniad cyffredinol yr astudiaeth fydd pennu ymyraethau safle-benodol ar gyfer defnyddiau cyflogaeth traddodiadol, ac ymyraethau ar sail meini prawf ar gyfer sectorau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â thir.

1.2 Pwrpas yr Astudiaeth Economaidd Fwy na Lleol

Dyma bwrpas yr astudiaeth economaidd ddwy sir, fwy na lleol:

- Gweithredu fel dogfen sylfaen dystiolaeth 'fwy na lleol' i gefnogi datblygiad dogfennau Cynlluniau Datblygu Lleol ardaloedd awdurdod cynllunio lleol Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Gaerfyrddin. Bydd yr astudiaeth hefyd yn darparu'r cyd-destun rhanbarthol ar gyfer rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn Sir Gaerfyrddin, ac ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro.
- Ymateb i ofynion Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd (Chwefror 2014) a'r Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i ategu Cynllun Datblygu Lleol (Awst 2015), gan fod yn ymwybodol ar yr un pryd o egwyddorion Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Bydd yr Astudiaeth yn ceisio taro cydbwysedd rhwng cyflawni gofynion TAN 23 a'r Canllawiau Ymarfer, gan roi pwyslais cryf ar hyblygrwydd, realaeth twf y sector a'r gallu i ateb y galw ar raddfa ranbarthol. Lle bo modd, cyfeirir at ranbarth y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol er mwyn sicrhau hirhoedledd allbwn yr astudiaeth.
- Arwain dadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth, gyda thystiolaeth anecdotaidd ategol ar wahân yn deillio o ymgysylltu a negeseuon cyd-destunol sy'n codi o'r adolygiad llenyddol.


- Lledaenu ymyraethau ymgynghorol i lywio'r weledigaeth economaidd, darparu polisïau safle-benodol a thargedau meintiol ar gyfer dosbarthiadau defnydd traddodiadol B1, B2 a B8, wrth ddarparu gwybodaeth am ymyraethau i gefnogi datblygiad ymyraethau ar sail meini prawf ar gyfer defnydd economaidd arall, ac argymhellion ar gyfer monitro fel bo modd cael golwg o'r economi gyfan.
- Casglu gwybodaeth am Safleoedd Strategol yn unig o fewn yr Ardal Fwy na Lleol, gan nodi nad diben hynny yw disodli rôl yr Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) na'r Astudiaeth Economaidd awdurdod unigol.

Nid pwrpas yr astudiaeth yw darparu rhagolygon manwl o'r holl sectorau allweddol. O reidrwydd, y mae'n astudiaeth lefel uchel, fwy na lleol, sy'n canolbwyntio ar ddarparu rhywfaint o eglurder ynghylch cyfeiriad economi'r ardal. Nid pwrpas yr astudiaeth ychwaith yw adolygu'r holl dir cyflogaeth ar draws yr ardal fwy na lleol. Yn wir, rôl proses yr Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) yw honno, ac mae'r comisiwn hwn yn canolbwyntio ar dir strategol a all greu effaith ar yr ardal fwy na lleol.

1.3 Strwythur yr Astudiaeth Economaidd Fwy na Lleol

Wrth baratoi astudiaeth economaidd ceir dau faes eang: asesiad o'r amgylchedd economaidd cyfredol yn Ardal yr Astudiaeth Fwy na Lleol, ac adolygiad o'r ffactorau sy'n sbarduno newid yn dilyn hynny. Yn Ffigur 1 nodir y fethodoleg astudio arfaethedig, gan gyfeirio at gamau TAN 23 a'r Canllawiau Ymarfer lle bo'r rheiny'n gyson â Phenodau ac Atodiadau unigol yr Adroddiad.

Ffigur 1 Methodoleg Arfaethedig



Mae strwythur yr adroddiad felly fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn nodi cyd-destun yr astudiaeth a man cychwyn yr asesiad;
- Mae **Adran 3** yn nodi'r Cyd-destun o ran Polisi a Phroffil yr Ardal Fwy na Lleol, sy'n crynhoi'r Adolygiad Llenyddol manwl a gynhaliwyd yn **Atodiad A**;
- Yn **Adran 4** nodir cryfderau a gwendidau economaidd yr Ardal Fwy na Lleol, gan dybio cynnwys ansoddol yr adolygiad llenyddol, canlyniadau meintiol yr adolygiad llinell sylfaen cyflym, a'r adborth o'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Yn **Adran 5** nodir yr ymyraethau economaidd Mwy na Lleol sy'n seiliedig ar y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n codi o'r mewn bwn i Adran 4;
- Yn **Adran 6** nodir sut y gellid cymhwyso'r ymyraethau economaidd Mwy na Lleol hyn yn benodol i'r rhestrau o safleoedd a'r arfarniadau amlinellol yn **Atodiad C**; ac
- Yn **Adran 7** cesglir canlyniadau'r asesiadau safle a'r adolygiad o ymyraethau economaidd, gan roi argymhellion ynghylch monitro'r ymyraethau cynghorol hyn.

Er eglurder a rhwyddineb wrth ddarllen, cefnogir yr adroddiad troswaol hwn gan amryw o atodiadau manwl, sef:

Atodiad A - Adolygiad Llenyddol;

Atodiad B - Adolygiad Llinell Sylfaen Cyflym; ac

Atodiad C. - Adolygiad Asesu Strategol.

Bydd crynodeb hyrwyddo hefyd yn cael ei gynhyrchu i fanylu ar yr ymyraethau arfaethedig ar gyfer yr ardal, yn ogystal â nodi'r safleoedd strategol. Y gobaith yw y bydd yr Ardal Fwy na Lleol yn gallu rhannu'r ddogfen gwyno â darpar fuddsoddwyr a chwmnïau sy'n tyfu.

2 Man Cychwyn Mwy na Lleol: Y Cyd-destun a'r Man Cychwyn

2.1 Trosolwg

Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 23 Datblygu Economaidd, man cychwyn yr astudiaeth yw diffinio'r Ardal Fwy na Lleol, gweledigaethau economaidd sy'n bodoli eisoes ar draws yr ardal a safleoedd strategol ar draws yr ardal.

2.2 Man Cychwyn 'Mwy na Lleol': Diffinio Ardal yr Astudiaeth

Gan nad yw grymoedd y farchnad yn parchu ffiniau Awdurdodau Lleol, mae'r Nodyn Cyngor Technegol 23 Datblygu Economaidd yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio mewn grwpiau rhanbarthol i baratoi sylfeini tystiolaeth economaidd. Yn Y Canllawiau Ymarfer *Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol (2016)* nodir y bydd angen is-rannu proffiliau economaidd a'r farchnad eiddo yn ddaearyddol, oherwydd gall ardaloedd Mwy na Lleol yn aml fod wedi'u rhannu'n ddwy neu fwy o ardaloedd economaidd, ardaloedd marchnad eiddo neu ardaloedd Teithio i'r Gwaith.

Yn dilyn adolygiad o'r llenyddiaeth gefndir, gwelir bod amryw o ardaloedd swyddogaeth yn gweithredu ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, sydd wedi'u mapio yn **Atodiad A**, gan gynnwys:

1. Ffiniau sirol a nodweddion ffiniau parciau cenedlaethol;
2. Rhanbarth y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chanolbarth a De-orllewin Cymru;
3. Pum Ardal Teithio i'r Gwaith¹, gan gynnwys Aberteifi; Hwlfordd ac Aberdaugleddau; Penfro a Dinbych-y-pysgod; Abertawe; a Llanelli;
4. Ardaloedd is-farchnad tai fforddiadwy lleol yn Sir Gaerfyrddin; ac
5. Ac amcanion a mentrau lleol, fel ffiniau sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, yr Ardal Fenter neu'r blaenoriaethau adfywio yng Nghynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2018).

Mae'n amlwg nad oes un nodwedd ffin y gellir ei hystyried fel y nodwedd gywir er mwyn cynnal yr asesiad Mwy na Lleol. Gan nad oes ardaloedd Marchnad Dai Fforddiadwy yn Sir Benfro, mae'r ardaloedd Teithio i'r Gwaith yn creu fframwaith gofodol cyson ar gyfer asesu. Yn ogystal â hyn, gan fod amcanion a mentrau rhanbarth y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys ardal lawer mwy na'r 'ddwy sir', ni chyfeirir at y nodweddion hyn, ond pan fônt yn berthnasol.

¹ ONS (2011) Travel to Work Areas December 2011 Boundaries (Ultra-generalised) based on Census 2011 information.

Ffocws yr Ardal Fwy na Lleol felly fydd ffiniau Awdurdod Lleol ac ardaloedd Teithio i'r Gwaith Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a nodwyd drwy Gyfrifiad 2011. Fodd bynnag, cydnabyddir bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APC) yn fwy cyson ag ardal swyddogaethol De-ddwyrain Cymru.

Lle bo modd, adroddir ar y dadansoddiad o gryfderau a gwendidau, ac ymyraethau ar sail ardaloedd Teithio i'r Gwaith.

2.3 Man Cychwyn yr Astudiaeth Fwy na Lleol: Gweledigaethau Cychwynol y Polisi Economaidd

Mae adolygiad llenyddiaeth llawn o'r holl bolisi sy'n berthnasol i'r Astudiaeth Fwy na Lleol hon wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**. Ceir crynodeb isod o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno polisi economaidd ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cyhoeddwyd drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer ymgynghori ar 7 Awst 2019. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, dyma fydd y cynllun datblygu lefel uchaf yng Nghymru sy'n nodi strategaeth ofodol ar gyfer Cymru hyd at 2040.

Rhan greiddiol o ddrafft y FfDC yw annog gwaith rhanbarthol rhwng y tri rhanbarth Cymreig a nodwyd: Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'n nodi y bydd dull gweithredu rhanbarthol *'yn cydnabod bod rhannau gwahanol o Gymru yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, gyda'u nodweddion a'u heriau sylfaenol eu hunain. Bydd y tri rhanbarth yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau. Anogir pob rhanbarth i adeiladu ar ei gryfderau presennol a chanlyn cyfleoedd i sicrhau mwy o ffyniant a lles².*

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Cronfa fuddsoddi gwerth £1.3 biliwn ³ yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe er mwyn cefnogi twf economaidd ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru. Targed y Fargen Ddinesig yw creu dros 9,000 o swyddi newydd a sicrhau cynnydd o £1.8 biliwn i GVA y rhanbarth.

²Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 Drafft Ymgynghori: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/Drafft%20y%20Fframwaith%20Datblygu%20Cenedlaethol.pdf>, tudalen 20.

³ <http://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/>

Mae'r Fargen Ddinesig yn amlinellu cynlluniau penodol ar gyfer un ar ddeg o brosiectau sydd wedi'u dylunio i gyflawni'r amcanion uchod, gan gynnwys y canlynol:

- Yn Sir Benfro, mae **Ardal Forol Doc Penfro**⁴ yn anelu i ddatblygu canolfan ar gyfer datblygu, cynhyrchu, profi a dosbarthu ynni morol er mwyn cryfhau seilwaith glas Cymru.
- Yn Sir Gaerfyrddin, mae cynlluniau ar gyfer **Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli**⁵ yn cynnwys canolfan ymchwil gwyddor bywyd ynghyd â chyfleusterau datblygu busnes, cyfleusterau hamdden a thai gofal ychwanegol er mwyn creu un o'r datblygiadau cyntaf o'i fath.

Am wybodaeth bellach yn gysylltiedig â Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, gweler **Atodiad A**.

Ffigur 2 Prosiectau Bargaen Ddinesig Bae Abertawe



(Ffynhonnell: Bargaen Ddinesig Bae Abertawe)

Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau

Yr unig Ardal Fenter yn yr Ardal Fwy na Lleol yw Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau⁶. Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau yn ymestyn ar draws y pedair 'Ffin Ardal' a phum 'Safle Strategol Arall', gyda ffocws ar y sectorau ynni a'r amgylchedd. Ceir rhagor o wybodaeth yn gysylltiedig â blaenoriaethau ac amcanion yr Ardal Fenter yng Nghynllun Strategol Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau, ac mae'n cynnwys mentrau fel datblygu Parc Bwyd yn Llwynhelyg a chefnogi prosiectau Morol Doc Penfro. Ceir esboniad manylach o'r Cynllun hwn yn **Atodiad A**.

⁴ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/prosiectau/ardal-forol-doc-penfro/>

⁵ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/prosiectau/pentref-gwyddor-bywyd-a-llesiant/>

⁶ <https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/dyfrffordd-y-ddau-gledau>

Ffigur 3 Ardaloedd a Safle yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau⁷



(Ffynhonnell: Busnes Cymru)

2.4 Man Cychwyn yr Astudiaeth Fwy na Lleol: Safleoedd Strategol

Yn Nhabl 1, ceir diffiniadau o Safleoedd Strategol a nodwyd mewn llenyddiaeth bresennol.

Tabl 5 1 Diffiniad o Safleoedd Strategol

	Dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd	Diffiniad o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar Ddod
Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		10ha a mwy
Sir Benfro	20ha a mwy	Heb eu diffinio, ond nodai'r Strategaeth a Ffafir y byddai'r rhain yn debygol o fod yn y lleoliadau allweddol a ganlyn: Trecwn, Aberdaugleddau a Doc Penfro (gan gynnwys safleoedd sy'n gysylltiedig â'r ddyfrffordd) a Hwlffordd.
Sir Gaerfyrddin	9-10ha neu fwy	Heb eu diffinio, ond nodai'r Strategaeth Gynllunio y byddai'r rhain yn seiliedig ar eu cyfraniad at fodloni gofynion twf yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol (gweler polisi SP1 uchod), ac yn deillio o'u perthynas â Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.
Arfordir Penfro	0.93 ha	Polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf.
Bannau Brycheiniog	0.35 - 1.4ha	Heb eu diffinio.

⁷ Ffynhonnell: <https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/dyfrffordd-y-ddau-gleddau>

Yn seiliedig ar yr adolygiad o lenyddiaeth gefndirol, mae 'Safleoedd Strategol' yn fras felly'n cynnwys rhai **sy'n fwy nag oddeutu 10ha**.

Fodd bynnag, er nad ydynt dros 10ha o ran maint, ceir nifer o ardaloedd a safleoedd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau a mentrau sector. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u clystyru'n ofodol mewn ardaloedd a nodwyd yn:

- Bargen Ddinesig Bae Abertawe (gan gynnwys Prosiect Morol Doc Penfro, Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli, neu'r Clwstwr Digidol Creadigol yng Nghaerfyrddin);
- Ardaloedd targed ar gyfer cyllid adfywio drwy Gynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2018) (gan gynnwys Rhydaman, Llanelli, Hwlfordd, Penfro), Y Fargen Ddinesig neu Ardal Fenter,
- Ardal y Fargen Ddinesig neu'r Ardal Fenter, neu mae Cynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2018) yn cynnwys Nodau Strategol er mwyn cefnogi twf busnesau lleol, cynyddu'r gallu i fyw'n gynaliadwy, adeiladu cymunedau hyfyw neu gynyddu effaith buddsoddi er mwyn adfywio.

Bydd cryfderau sectoraidd presennol, mentrau â blaenoriaeth a chryfderau'r seilwaith felly'n cyfrannu at benderfynu a yw safle yn 'strategol' ar lefel yr astudiaeth 'Mwy na Lleol', a'r egwyddorion yr asesir y rhain yn eu herbyn. Bydd y diffiniad 'man cychwyn' uchod o safleoedd strategol felly'n cael ei adolygu yn dilyn adolygiad o'r cyd-destun o ran polisi, cryfderau a gwendidau cyfredol a ffactorau sy'n sbarduno newid ar draws yr Ardal Fwy na Lleol. Ymdrinnir â chanlyniadau'r adolygiad hwn yn **Atodiad C** ac yn ddiweddarach yn Adran 6.

3 Proffil o'r Ardal Fwy na Lleol

Mae'r Ardal Fwy na Lleol yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn ogystal â Pharciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog. Darperir adolygiad gofodol ac ystadegol llawn o'r Ardal Fwy na Lleol yn Atodiad B, a chrynodeb o'r themâu allweddol isod.

3.1 Nodweddion Gofodol

Mae'r Ardal Fwy na Lleol yn amrywiol ac yn cynnwys morlin helaeth, ardaloedd gwledig a nifer o drefi a dinasoedd. Mae'n arbennig o adnabyddus am ei chyfoeth o amgylchedd naturiol, fel y mae'r ddau barc cenedlaethol (Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro) a nifer o ddynodiadau amgylcheddol yn dangos.

Dyma'r aneddiadau allweddol ⁸ yn yr Ardal Fwy na Lleol:

- Aberdaugleddau
- Dinbych-y-pysgod
- Hwlfordd
- Caerfyrddin
- Penfro
- Llanelli
- Doc Penfro
- Rhydaman / Cross Hands.
- Abergwaun ac Wdig

Cyflwynir prif briodoleddau a nodweddion nodedig pob anheddiad allweddol yn fanylach yn **Atodiad B**.

Ceir crynodeb o seilwaith trafndiaeth allweddol yn y tabl isod:

Tabl 2 Seilwaith trafndiaeth allweddol

Seilwaith Trafndiaeth Allweddol	
Rhwydwaith Prif Ffyrdd / Cefnffyrdd	Traffordd yr M4 A40 A4076 A477 A478
Meysydd Awyr	Hwlfordd (Llwynhelyg) Gorllewin Penfro RAF Brawdy (ddim yn weithredol ar hyn o bryd)
Porthladdoedd	Porthladd Aberdaugleddau Porthladd Fferi Abergwaun

Mae cysylltiadau rheilffyrdd yn fwy cyfyngedig, yn enwedig yn Sir Benfro, ac er bod gorsafoedd trên wedi'u lleoli ym mhob un o'r prif aneddiadau,

⁸Yn seiliedig ar Aneddiadau Allweddol fel y'u dynodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol pob ACLI.

mae'r amseroedd teithio yn aml yn hir oherwydd natur anuniongyrchol llawer o'r teithiau. Ceir esboniad manylach ynghylch hyn yn **Atodiad B.**

Dylid nodi bod traffordd yr M4 yn dod i ben ym Mhont Abraham, Sir Gaerfyrddin, felly'r prif lwybr teithio o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws yr Ardal Fwy na Lleol yw'r A40.


Mae Porthladd Aberdaugleddau yn ased allweddol i'r ardal, fel y porthladd mwyaf yng Nghymru ac yn un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd.⁹ Ystyrir hefyd ei fod mewn lleoliad strategol ar gyfer datblygu ynni. Yn ogystal â hyn, mae Porthladd Fferi Abergwaun yn creu cysylltiadau strategol pellach ag Iwerddon, ac yn borth bwysig i Gymru a'r DU.

Ceir un Brifysgol yn yr Ardal Fwy na Lleol, sef Prifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Ceir hanes milwrol cryf yn Sir Benfro gyda safleoedd yng Nghanolfan Hyfforddi Castell Martin i'r de o'r sir¹⁰ a Barics Cawdor / RAF Brawdy i'r gorllewin, y ddau yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Yn 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y byddai Barics Cawdor yn cau o fewn Cyfnod Cynllun CDLI2, ac mae astudiaethau dichonoldeb ar y safle yn parhau¹¹. Mae nifer o hen safleoedd milwrol eraill yn amlwg yn yr ardal, gan gynnwys hen safleoedd RNAD yn Aberdaugleddau a Threcŵn.

3.2 Nodweddion Demograffig

Mae oddeutu 311,200 o bobl yn byw yn yr Ardal Fwy na Lleol¹². Mae'r Ardal yn wledig yn bennaf, ac adlewyrchir hynny yn ystadegau dwysedd y boblogaeth, a ddangosir yn ffigur 4 isod¹³.

Ffigur 4 Dwysedd Poblogaeth yn yr Ardal Fwy na Lleol



⁹ <https://www.mhpa.co.uk/the-port/>

¹⁰ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/27471/Castlemartin.pdf


¹¹ <https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2019-02-28/227073/>

¹² Data Cyfrifiad ONS 2011

¹³ Data Cyfrifiad ONS 2011

Mae'r data cyfredol a'r data o ragolygon yn dangos bod poblogaeth yr ardal yn heneiddio, fel y dangosir yn y ffigur isod.

Ffigur 4 Strwythur Oedran yr Ardal Fwy na Lleol 2001-2018



Ffynhonnell: Data Cyfrifiad 2001 / Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn awgrymu bod mynediad at wasanaethau yn yr Ardal Fwy na Lleol yn wael, gyda'r mwyafrif o ardaloedd wedi'u cynnwys ymhlith 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru.

3.3 Nodweddion Economaidd

Mae sectorau cyflogaeth o bwys yn cynnwys Addysg, Iechyd a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sydd gyda'i gilydd yn cyflogi'r nifer absoliwt mwyaf o bobl yn yr Ardal Fwy na Lleol, yn ogystal â manwerthu sy'n cyflogi 12.1% o'r gweithlu yn y naill ardal awdurdod lleol a'r llall.

Dangosir natur wledig yr Ardal Fwy na Lleol yng nghanran y gyflogaeth o fewn y sector cynyddau, cynnyrch anifeiliaid a hela (2.3% yn Sir Benfro a 3.7% yn Sir Gaerfyrddin) o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 1%.

Mae gweithgynhyrchu yn sector cyflogaeth allweddol arall, er bod data'n awgrymu bod hyn yn cyflogi mwy o bobl yn Sir Gaerfyrddin nag yn Sir Benfro, er enghraifft mae gwaith cynhyrchu cerbydau modur hefyd yn sylweddol yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â gweddill Canolbarth a De-orllewin Cymru (2.4%).

Mae twristiaeth yn sbardun economaidd o bwys yn yr Ardal Fwy na Lleol, yn enwedig yn Sir Benfro lle adroddir bod Ardal Parc Cenedlaethol Arfordir

Penfro ei hun yn denu 4.2 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn¹⁴. Mae atyniadau fel Bluestone a Folly Farm, a phrosiectau fel Prosiect Atynnu Twristiaeth Pentwyn wedi cryfhau'r arlwy i ymwelwyr¹⁵. Mae'r rhain yn dangos y gellir^{16 17} ystyried twristiaeth yn ddiwydiant twf allweddol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Mae rhagolygon economaidd llawn, sy'n dangos lefel y twf a'r newid a ddisgwylir ar draws yr holl sectorau, ar gael yn Atodiad B yr adroddiad hwn.


¹⁴ https://www.field-studies-council.org/media/2419552/500_pembrokeshire_s_facts_of_tourism_jan_11_.pdf

¹⁵ <https://www.bluestonewales.com/>

¹⁶ <https://www.folly-farm.co.uk/>

¹⁷ <http://www.carmarthenshireherald.com/44084/work-begins-on-major-pendine-transformation-scheme/>

3.4 Diagram Allweddol



4 Yr Ardal Fwy na Lleol: Cryfderau a Gwendidau Economaidd

4.1 Trosolwg

Drwy adolygu'r data meintiol yn gysylltiedig â thwf a newid (gweler **Atodiad B**), a chasglu gwybodaeth anecdotaidd drwy weithgareddau ymgynghori, mae'n glir bod cryfderau unigryw sy'n bodoli ers tro yn yr Ardal Fwy na Lleol. Fodd bynnag, ceir hefyd heriau strwythurol a allai ddod yn gynyddol amlwg os bydd y gefnogaeth bresennol o du'r sector cyhoeddus yn newid ar ôl Brexit.

Yn y rhan hon o'r adroddiad ceir crynodeb o'r cryfderau a'r gwendidau a nodwyd, a ffocws ar safleoedd strategol a'r strwythur economaidd i gefnogi twf a buddsoddiad yn fwy cyffredinol. Cyflwynir y canfyddiadau o dan amryw o is-benawdau allweddol, ac maent yn berthnasol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, oni chyfeirir yn benodol at ardal ddaearyddol o fewn y rhanbarth (ee, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin neu safle penodol).

Ni ellir gwahanu cryfderau a gwendidau economaidd yr ardal oddi wrth ymyraethau a gynigir o fewn y strategaeth economaidd. Er cyflawnder, **mae ymyraethau cyfatebol** a safleoedd sy'n debygol o fod yn fwy addas er mwyn adeiladu ar y cryfderau hyn hefyd wedi'u nodi. Bydd hyn o gymorth i gyfiawnhau'r polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf a pholisiau sy'n seiliedig ar safleoedd.

4.2 Yr Ardal Fwy na Lleol: Sectorau Allweddol

Sectorau allweddol

Dengys data'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) (gweler Adran 4.5 o **Atodiad B**) fod Addysg, Iechyd a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ymhlith y sectorau cyflogaeth o bwys yn yr Ardal Fwy na Lleol, sy'n dangos dibyniaeth ar y sector cyhoeddus.

Mae Llety a Gwasanaethau Bwyd ymhlith sectorau eraill pwysig, sy'n gysylltiedig â chryfder y sector twristiaeth o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Mae'r sector Manwerthu hefyd yn gyflogwr o bwys, ynghyd ag Amaethyddiaeth, yn enwedig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. O ganolbwyntio ar Sir Gaerfyrddin, gwelir hefyd fod gweithgynhyrchu yn gyflogwr pwysig, ac adeiladu yn sector ehangach pwysig.

Mae data o ragolygon gan Experian yn dangos marweidd-dra cyffredinol yn nifer o'r sectorau eang. Rhagwelir twf yng nghyflogaeth y sectorau Llety, Gwasanaethau Bwyd a Hamdden, Adeiladu, Gwasanaethau Cyhoeddus a Thrafnidiaeth a Storio, ond rhagwelir dirywiad mewn yn y sector Gweithgynhyrchu, Proffesiynol a Gwasanaethau Eraill Preifat, a Chyfanwerthu a Manwerthu.

Tabl 5 3 Cryfderau a Gwendidau mewn Sectorau Allweddol

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyraethau Cyfatebol
Cryfder y Sector Twristiaeth (KS1) Mae'r sector twristiaeth yn elfen allweddol yn yr economi Fwy na Lleol, gydag ystod o asedau naturiol (ee, y forlin a'r mynyddoedd), yno gystal ag ystod o atyniadau i ymwelwyr wedi'u seilio ar hanes (ee, cestyll), diwylliant a digwyddiadau (fel penwythnos y Cwrs Hir ac Ironman Cymru).	Pob un	INV1
Cynhyrchu a Phrosesu Bwyd a Diod (KS2) Yn gysylltiedig â chryfder y sector amaethyddol, mae cynhyrchu a phrosesu bwyd yn gryfder ar draws yr Ardal Fwy na Lleol. Mae amlygrwydd y sector yn glir wrth adolygu'r strwythur busnes gyda busnesau strategol fel Puffin Produce a Princes Gate yn Sir Benfro, Castell Howell a Dunbia yn Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â busnesau newydd llai fel Pembrokeshire Sea Salt.	Pob un	INV1
Cynhyrchu Ynni - Traddodiadol, Morol ac Adnewyddadwy ar y Tir (KS3) Mae Sir Benfro, ac yn enwedig yr ardal o amgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau wedi datblygu'n adnabyddus yn y sector ynni, ac wedi cael eu hyrwyddo drwy fusnesau presennol amlwg, yr Ardal Fenter a sefydliadau fel Ynni Morol Cymru. Hyd yn oed wrth drosglwyddo i ynni carbon isel, bydd y seilwaith presennol a'r gweithlu sy'n fedrus ym maes dylunio peirianeg yn parhau i fod yn gryfderau cystadleuol. Yn Sir Gaerfyrddin, mae gan ynni adnewyddadwy bresenoldeb cryf ar yr ucheldir, yn enwedig ynni'r gwynt ar y tir, ac ynni solar graddfa fawr.	Pob un	INV1

Gweithgynhyrchu (KS4) Yn Sir Gaerfyrddin ceir nifer o fusnesau gweithgynhyrchu a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, fel Magstim a Haydale. Mae Sir Benfro hefyd yn cynnwys cyfoeth o fusnesau gweithgynhyrchu, y mae llawer ohonynt wedi'u sefydlu i gefnogi sectorau ehangach, fel gweithgarwch morol a gweithgarwch yn gysylltiedig â phorthladdoedd.	Pob un	INV1
Logisteg a Dosbarthu (KS5) Mae logisteg a dosbarthu yn chwarae rhan gref yn yr economi Fwy na Lleol, gan adlewyrchu natur sectorau eraill allweddol (ee, bwyd, tanwydd a bwyd anifeiliaid anwes) a llwyddiant busnesau cynhenid, a natur ddaearyddol yr ardal, a'r angen am logisteg a threfniadau lleol i ddosbarthu i'r ardal ehangach a thu hwnt.	Pob un	INV1
Y Diwydiannau Creadigol (KS6) Gyda'r ffocws ar Gaerfyrddin drwy S4C a phrosiect Yr Egin, a hanes cwmnïau fel Tinopolis yn Llanelli, ceir sylfaen gref i'r diwydiannau creadigol yn Sir Gaerfyrddin.	Caerf.	INV1

Strwythur Economaidd

Y sector cyhoeddus sydd yn fwyaf amlwg yn strwythur economaidd yr Ardal Fwy na Lleol, fel y mae data BRES yn dangos. Er bod GVA wedi bod yn tyfu'n gyffredinol ers 2011, mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae strwythur busnes yn dra gwahanol ar draws yr ardal, gyda chyfran fwy o fusnesau graddfa fach yn Sir Benfro a'r cyflogwyr graddfa fwy (250+) yn tueddu i fod wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin yn bennaf. Efallai fod hyn yn adlewyrchu tueddiadau mewn enillion ac arferion cymudo, gyda'r enillion yn uwch yn Sir Gaerfyrddin lle bydd mwy o bobl yn cymudo i ardaloedd ehangach Abertawe a De-ddwyrain Cymru, ac yn is yn Sir Benfro, lle bydd pobl yn tueddu i weithio a chymudo i ardal gyfagos Sir Gaerfyrddin.

Tabl 4 Cryfderau a Gwendidau'r Strwythur Economaidd

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Manteision economïau cyflenwol: Mae Sir Benfro yn fwy 'arbenigol' tra bo'r sylfaen economaidd yn fwy amrywiol yn Sir Gaerfyrddin (ES1) O gymharu â chyfanswm lefelau cyflogaeth, mae llety a bwyd, amaethyddiaeth a ffermio, cyflenwadau trydan, nwy a stêm, y celfyddydau ac adloniant, a mwynloddio a chwarela yn fwy cyffredin yn Sir Benfro nag yn Sir Gaerfyrddin. ¹⁸ Ceir llai o or-gynrychiolaeth yn unrhyw sector penodol yn Sir Gaerfyrddin, ond mae'r lefelau cyflogaeth yn uwch ar y cyfan, gan dangos lefelau uwch o amrywio. ¹⁹	Pob un	INV1
Y canfyddiad mai cyflogaeth y sector cyhoeddus sydd drechaf (ES2)	Pob un	INV3

¹⁸Sectorau cyflogaeth BRES (2017) (gweler Atodiad B)

¹⁹ Sectorau cyflogaeth BRES (2017) (gweler Atodiad B)

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Er gwaethaf gostyngiadau diweddar yng nghyfanswm y gyfran a gyflogir yn y sector cyhoeddus²⁰, y sectorau addysg, iechyd a gweinyddiaeth gyhoeddus gyda'i gilydd o hyd yw cyflogwyr absoliwt mwyaf pobl yn yr Ardal Fwy na Lleol²¹. I raddau, bu cyflogaeth y sector cyhoeddus yn sylfaen mewn amryw o ardaloedd, yn enwedig y tu allan i dde-ddwyrain y DU, yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd. Serch hynny²², yr hyn sy'n peri bod ymglymiad y sector cyhoeddus yn yr ardal yn arbennig o bwysig yw'r cyfuniad o gymorth ariannol gan y sector cyhoeddus er mwyn dod â safleoedd yn eu blaenau ac amlygrwydd cyflogaeth y sector cyhoeddus. Wrth roi adborth, dywedodd mwyafrif llethol y busnesau na fyddai twf na datblygiad wedi bod yn bosibl yn Ne Orllewin Cymru heb gyllid y sector cyhoeddus. Gweinyddir Cronfa Datblygu Eiddo Caerfyrddin o dan Gynllun Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa ar gael ar gyfer hyd at 45% o'r gyfradd ymyrraeth²³. Nid yw sectorau fel pysgodfeydd, cynhyrchu ynni, adeiladu llongau na gweithgynhyrchu glo/dur/ffibrau synthetig yn gymwys. Ochr yn ochr â mentrau a dargedir ar sail sector (fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r Fargen Ddinesig), yr oedd canfyddiad nad oedd sectorau ond wedi tyfu oherwydd y buddsoddiad targededig hwn.		
Llwyddiant cymysg Cyllid y Fargen Ddinesig a'r Ardal Fenter (ES3) Mae'r Ardal Fwy na Lleol yn cynnwys Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau yn ogystal â phrosiectau'r Fargen Ddinesig, fel Yr Egin S4C, Pentref Gwyddor a Llesiant Llanelli a Phrosiect Morol Doc Penfro. Hyd yma bu llwyddiant yr ymyrraethau hyn (a oedd yn cynnwys ymyrraethau defnydd tir ac ar gyfer prosiectau penodol / ymyrraethau ariannol) yn gymysg: • Er bod mentrau cadarnhaol wedi codi o Fwrdd yr Ardal Fenter a phartneriaethau cysylltiedig (fel Ardal y Porthladd a'r Astudiaeth Trafnidiaeth), roedd adborth anecdotaidd gan fusnesau yn awgrymu na ystyrir bod Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau wedi sicrhau newid / buddsoddiad ar raddfa fawr yn yr ardal. Ystyriwyd hefyd ei bod yn gwrthdaro'n rhannol â rhai o ddynodiadau amgylcheddol yr ardal. • Bu prosiectau'r Fargen Ddinesig fel Yr Egin, yn llwyddiant ysgubol, ond teimlai rhanddeiliaid bod angen mwy o sicrwydd ynghylch darpariaeth a graddfeydd amser y cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Morol Doc Penfro. Er bod yr ymyrraethau hyn yn dangos cryfder yr Ardal Fwy na Lleol, mae angen sicrhau ymwybyddiaeth o'r holl fanteision, a chyfathrebu ynghylch y manteision hynny er mwyn sicrhau bod prosiectau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn llwyddo hyd yr eithaf.	Pob un	INV1, INV6

²⁰Y Cynulliad (2011) Materion Allweddol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad:<http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/ki-014.pdf%20-%2003112011/ki-014-Cymraeg.pdf>

²¹ Sectorau cyflogaeth BRES (2017) (gweler Atodiad B)

²² 'Regional Futures: England's Regions in 2030' Arup for the English Regions Network, England's RDAs, DCLG & DfT, 2004

²³ Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid Sir Gaerfyrddin (Mai 2018) <https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1218116/canllawiau-cronfa-datblygu-eiddo-masnachol.pdf>

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Cynhyrchiant is o lawer wedi'i amlygu yn Sir Gaerfyrddin (ES4) Mae'r data GCA diweddaraf yn dangos lefelau is a thwf is yn gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin, ac fe gyfeiriwyd at y bwlch cysylltiedig mewn cynhyrchiant yn y sir fel gwendid wrth ymgynghori. Yn ôl Dangosfyrddau Brexit Awdurdodau Lleol Grant Thornton, mae Sir Gaerfyrddin yn safle 18 o blith 22 o awdurdodau, sy'n dangos bod cynhyrchiant yn isel ²⁴ .	Caerf.	

Cryfder y Farchnad, y Cyflenwad a'r Galw

Yn ôl ein gwaith dadansoddi safleoedd, ochr yn ochr â thrafodaethau â chyflogwyr allweddol, asiantau eiddo ac arweinwyr sector, mae'r Ardal Fwy na Lleol yn elwa ar ddyhead busnesau cynhenid i aros yn yr Ardal Fwy na Lleol, a pharhau i fuddsoddi a thyfu eu busnes. Mae hyn er gwaethaf ystyriaeth bod y farchnad dai yn brin o eiddo newydd o ansawdd uchel, ac y mae ei gwerthoedd terfynol yn golygu ei bod hi'n anodd sicrhau hyfywedd prosiectau. Mae methiant y farchnad felly'n duedd gyffredinol ar draws prosiectau buddsoddi, gan olygu bod angen cyfran uwch o fewnbwn gan fuddsoddwyr i gyfiawnhau benthyciadau neu fod angen cyfran uwch o gymorth grant ac ymyrraeth o du'r sector cyhoeddus.

Tabl 5 Manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â chryfder y farchnad a'r cyflenwad a'r galw

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Cryfder y Brand Cymreig (MS1) Ystyrir bod cynnyrch brand Cymreig yn denu pris premiwm ac yn cynrychioli marchnad sy'n tyfu'n barhaus. Yn ôl <i>'Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Brandio a phrosesu bwyd'</i> ²⁵ gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae rhanddeiliaid yn dweud bod gan hunaniaeth Gymreig ran bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo a marchnata cynnyrch bwyd a diod Cymreig o fewn y DU ac ar raddfa ryngwladol. Mae'r adroddiad 'Ailfeddwl Bwyd' yn galw am fwy o eglurder ynghylch effaith bosibl Brexit ar gyllid i'r diwydiant bwyd a diod, gan nodi bod potensial sylweddol nad yw'n cael ei wireddu yn rhai o'r marchnadoedd allforio rhyngwladol.	Pob un	INV1, INV3
Hunaniaeth leol gref, gyda chwmnïau lleol yn barod i fuddsoddi a bod o fudd i'r ardal (MS2) Gyda nifer o randdeiliaid yn cyfeirio at gysylltiadau lleol hanesyddol â'r Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, roedd hi'n 'diwylliant allgaredd' i'w weld	Pob un	INV1, INV2

²⁴ Crynodeb Sir Gaerfyrddin o Ddangosfyrddau Brexit Awdurdodau Lleol (2019) <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2147>

²⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Brandio a phrosesu bwyd (Mehefin 2019) <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12574/cr-ld12574-w.pdf>

yn glir, gyda'r mwyafrif helaeth o fusnesau am weld yr ardal yn llwyddo, ac yn barod i fuddsoddi er mwyn aros yn yr ardal.		
Bwlch Gwerth Terfynol (MS3) Er gwaethaf canfyddiad bod y galw am ddefnyddiau cyflogaeth graddfa fach yn isel, amlygodd trafodaethau ag asiantau fod defnyddiau eiddo masnachol cyffredinol wan yn arwain at fwlch 'gwerth terfynol' rhwng costau adeiladu a gwerth gorffenedig. Mae'r 'bwlch' hwn, a'i effaith o ran cyfyngu ar dwf swyddi, wedi'i nodi fel problem ers tro drwy ymyraethau amrywiol yn y sector cyhoeddus: Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru ²⁶ , Cronfa Eiddo Cymru sydd ar gael er mwyn datblygu eiddo masnachol ²⁷ a'r Grant Datblygu Gwella Eiddo a weinyddir gan Gynllun Adfywio Rhanbarthol Bae Abertawe, a ddefnyddir er mwyn gwneud defnyddio arwynebedd masnachol gwag o'r newydd at ddefnydd masnachol buddiol ²⁸ . Mae'r her yn gysylltiedig â'r bwlch 'gwerth terfynol' yn ddeublyg. Yn gyntaf, ystyriodd rhanddeiliaid fod canfyddiad o ddibyniaeth strwythurol ar ymglymiad y sector cyhoeddus, sydd yn her barhaus i allu'r farchnad ei hadfer ei hun, ac yn gadael yr ardal yn fregus o ran sicrhau cyllid newydd ar ôl Brexit. Yn ail, roedd rhanddeiliaid o'r farn ei bod hi'n heriol i fusnesau bach a chanolig fenthycha yn erbyn asedau er mwyn tyfu yn y dyfodol, heb ymglymiad y sector cyhoeddus.	Pob un	INV2, INV3
Canfyddiad o 'golli cyfleoedd' (MS4) Yr oedd canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid fod arafwch o fewn y system o ran ymateb i ymholiadau'r farchnad ynghylch twf. Er nad oedd natur yr ymholiadau ar gael i'w trafod, yr oedd ymdeimlad cyffredinol fod fframweithiau caniatâd a rheoleiddio yn rhy araf i ymateb i'r farchnad. Yn ogystal â hyn, nododd rhai rhanddeiliaid y gellid ymateb i estyniadau ar brydles i chynigion i gaffael tir yn gyflymach.	Pob un	INV2, INV7,
Defnydd llwyddiannus o'r Gronfa Datblygu Eiddo yn Sir Gaerfyrddin, gyda galw ar restr aros am unedau manyleb uchel graddfa fach (MS5): Cyfeiriodd rhanddeiliaid at lwyddiant y cynllun, gyda thystiolaeth o nifer fawr o ymholiadau, a rhestr aros lle nad oedd safleoedd / eiddo ar gael (yn tueddu i ganolbwyntio ar eiddo graddfa lai, manyleb uwch). Er y bu'r grant yn hollbwysig mewn hanesion am lwyddiant twf (ee, Castell Howell), mae'r ymholiadau wedi tueddu i gael eu cyflwyno gan fusnesau graddfa lai gyda llai o ymholiadau Mwy na Lleol.	Caerf.	INV2

Lle ac Asedau Daearyddol

Mae 'lle' wedi dod i'r amlwg fel sbardun allweddol wrth ystyried dyfodol yr Ardal Fwy na Lleol. Mae ansawdd y lle, asedau naturiol fel y Parciau Cenedlaethol ac apêl yr ardal i rai sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd bywyd-gwaith gwell yn rhinweddau allweddol, ac yn anochel yn effeithio ar lwyddiant economaidd y rhanbarth. Mae cadw lle o ansawdd (gan gynnwys tai, addysg a seilwaith cymunedol) yn allweddol i gyflogwyr presennol y mae angen iddynt ddenu neu gadw gweithlu, a hefyd i'r gweithwyr hynny sy'n ystyried symud i'r ardal.

²⁶ <https://www.npt.gov.uk/5985>

²⁷ <https://developmentbank.wales/cy/cael-cyllid-busnes/benthyciadau-datblygu-eiddo>

²⁸ <https://democracy.swansea.gov.uk/documents/s44968/12%202%20of%202%20-%20Appendix%20A%20South%20West%20Regional%20Plan%20for%20Regeneration.pdf>

Yn ogystal, ystyrir bod Dyfrffordd Aberdaugleddau yn ased daearyddol allweddol, fel un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd.

Tabl 5 Cryfderau a Gwendidau Lle ac Asedau Daearyddol

Cryfderau Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Cryfder apêl 'Gorllewin Cymru' fel ffordd o fyw, ond y canfyddiad y gellid gwella'r gefnogaeth ar gyfer seilwaith cymdeithasol (G1) Mae Adran Masnach a Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn rhestru pam bod 'lle' yn cael dylanwad cryf ar benderfyniadau wrth sefydlu busnesau yng Nghymru²⁹. Fodd bynnag, dywedodd nifer o randdeiliaid nad oedd y ddarpariaeth bresennol o ran seilwaith (yn enwedig addysg a gofal iechyd) o fewn yr ardal yn cyd-fynd ag ansawdd y naws am le; gydag un busnes yn nodi bod hynny'n golygu ei bod hi'n her denu ystod o arbenigwyr medrus i'r ardal (ar draws galwedigaethau ar bob lefel). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod addysg a seilwaith cymdeithasol da yn gosod y sylfeini cywir ar gyfer twf economaidd cynhyrchol o fewn ardal³⁰. Gall cynyddu apêl 'Lle' gael effaith aruthrol ar y farchnad lafur, gwneud canolfannau lleol yn llefydd mwy deniadol i fyw ynddynt a rhoi hwb i weithgarwch busnes yn gyffredinol drwy gynyddu twristiaeth a gwariant lleol³¹.	Pob un	INV1, INV9
Prinder tir y gellir ei ddatblygu sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i ddyfrffordd (G2) Ystyrir Porthladd Aberdaugleddau yn un o harbyrau naturiol dyfnaf y byd³², lle mae dylanwad y llanw yn gryf³³. Ystyrir y Ddau Gledau yn sianel fasnachol brysur i longau, gyda therfynfeydd i danceri, terfynfa fferi a marinas, sydd gyda'i gilydd yn cynnig mynediad i farchnadoedd tua'r gorllewin yn lwerddon, a chryfderau o safbwynt mewnfario/allfario. O ganlyniad i'r cyfyngiadau amgylcheddol ac ecolegol yn gysylltiedig â datblygu yn ardal y Ddau Gledau, graddfa'r defnyddiau cyflogaeth presennol yn yr ardal ac agosrwydd datblygiadau preswyl ger rhai o'r safleoedd yn y de, ystyriwyd bod prinder tir yr oedd modd ei ddatblygu a oedd yn cynnig mynediad uniongyrchol i'r ddyfrffordd.	Penfro	INV4

Cysylltedd a Seilwaith Strategol

Mae'r Ardal Fwy na Lleol yn elwa ar bresenoldeb seilwaith strategol, sy'n cynnig cysylltiadau i mewn ac allan o'r Ardal Fwy na Lleol. Mae asedau seilwaith allweddol yn cynnwys:

²⁹ <https://tradeandinvest.wales/why-wales/10-reasons>

³⁰ <https://whatworksgrowth.org/resources/what-works-for-generating-better-jobs-and-greater-earning-power/>

³¹ <https://www.centreforcities.org/blog/aberdeens-economic-slowdown-highlights-dangers-one-sector-city/>

³² <https://www.mhpa.co.uk/the-milford-haven-waterway/>

³³ Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad o Gymeriad y Morlun Rhagfyr (2013)

- Porthladd Aberdaugleddau a chanddo gysylltiadau ag Iwerddon a'r seilwaith ynni allweddol;
- Harbwr Abergwaun a chanddo gysylltiadau allweddol ag Iwerddon;
- Cysylltiadau traffordd yr M4 / Cysylltiadau'r A48 i'r dwyrain;
- Yr A40, rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd; a'r
- A477, yn cysylltu'r rhwydwaith ehangach â Phenfro a Phorthladd Aberdaugleddau.

Er gwaethaf yr asedau seilwaith a chysylltedd hyn sy'n creu cysylltiadau allweddol o fewn y rhanbarth, yn y Gymru ehangach ac yn rhyngwladol, ceir nifer o heriau o ran cysylltedd yn yr Ardal Fwy na Lleol hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried seilwaith/gwasanaethau rheilffordd a bws strategol, a chysylltedd rhwng y gogledd a'r de. Mae gan yr ardal hefyd nifer o gyfyngiadau ar seilwaith yn gysylltiedig â safleoedd penodol hefyd, lle mae angen uwchraddio'r seilwaith neu fuddsoddi er mwyn goresgyn bylchau mewn hyfywedd.

Tabl 6 Cryfderau a Gwendidau Cysylltedd a Seilwaith Strategol

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Enw da rhanbarthol Porthladdoedd Gorllewin Cymru (CSI1) Mae gan Borthladdoedd Gorllewin Cymru, sef Aberdaugleddau ac Abergwaun rôl allweddol yn y rhanbarth a thu hwnt, yn darparu cyswllt pwysig ar gyfer masnachu a theithio rhwng Cymru/y DU ac Iwerddon. Mae Porthladd Aberdaugleddau, a adwaenir fel un o borthladdoedd ynni mwyaf y DU, yn gallu cyflenwi 30% o'r galw am nwy yn y DU, a hefyd yn cynnig gwasanaethau fferis teithwyr a chludo nwyddau i Iwerddon a gweithredu dociau pysgota, Porthladd Penfro a Marina Aberdaugleddau. Yn ogystal â hyn, mae gan Awdurdod y Porthladd yn Aberdaugleddau, fel Porthladd Ymddiriedolaeth, rôl ehangach allweddol fel tîrfeidiannwr a hwylusydd gweithgarwch datblygu / adfywio yn yr ardal o amgylch y Ddyfrffordd. Gweithredir Porthladd Abergwaun gan Stena Line Ports Ltd, gan greu cyswllt pwysig ar gyfer teithwyr a nwyddau i Iwerddon. Yn ddiweddar mae'r porthladd wedi dod yn adnabyddus fel porthladd ymweld i'r sector mordeithiau.	Penfro	INV4, INV6, INV7
Cysylltiadau cryf yn Sir Gaerfyrddin â choridor yr M4 / A40 ac uchafswm cwmpas logisteg / cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio o Lundain (CSI2) Nododd rhanddeiliaid fod ffyrdd ymuno ac ymadael y dwyrain / gorllewin i'r A40 / A48 / M4 yn cynnig cysylltiadau cryf ar y ffordd at gyflogaeth allweddol (ee, Cross Hands). Unwaith eto, roedd rhanddeiliaid o'r farn fod y galw am safleoedd ymhellach na 5km o'r cyffyrdd allweddol hyn yn gostwng, a bod y safleoedd gwastad o amgylch y cyffyrdd hyn yn cael eu hystyried yn fwy gwerthfawr. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth o gystadleuaeth o du awdurdodau	Caerf.	INV4, INV7

cyfagos (hy, Abertawe), lle ystyriwyd bod agosrwydd cytreffi mwy yn cynnig cysylltedd gwell.		
Canfyddiad o gysylltedd 'dwyrain-gorllewin' cryf, ond bod y seilwaith awyr, rheilffordd a digidol yn wan ar y cyfan (CSI3) Ystyrir bod gan yr ardal gysylltiadau cryf rhwng y dwyrain a'r gorllewin, wedi'u hysgogi gan y Coridor Traws-Ewropeaidd sydd yn cysylltu Ewrop drwy'r DU â Gweriniaeth Iwerddon. Fodd bynnag, ystyriwyd bod angen gwelliannau er mwyn gwella hygyrchedd at gyflogaeth. Ystyriwyd bod y gwelliannau hyn yn cynnwys y canlynol: • Gwelliannau pellach i gysylltiadau'r dwyrain-gorllewin a mynediad cyffredinol i'r rhanbarth ar reilffordd³⁴, sydd wedi'i nodi'n flaenoriaeth yng Nghyd-gynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru (2015-2020). Nododd rhanddeiliaid hefyd fod cysylltiadau rheilffordd yn wael a bod canfyddiad nad oedd digon o arian yn cael ei fuddsoddi er mwyn gwella, gydag amserau teithio gwael i Gaerdydd a Llundain a thua'r gogledd ar reilffordd Calon Cymru i ganolbarth a gogledd Cymru. Ystyriwyd bod buddsoddi yng Ngorsaf Drenau Llanelli, a Pharcffordd Abertawe³⁵ (hy, datblygu gorsaf drenau newydd i'r gogledd o Abertawe), yn gyfleoedd o ran trafndiaeth. • Gwella'r seilwaith digidol er mwyn galluogi 'gweithio ystwyth'. Cydnabyddir y bydd Sir Benfro Ddigidol (2019) a Strategaeth Trawsnewid Digidol Sir Gaerfyrddin (2017) yn cyflawni hyn i ryw raddau. • Gwella cysylltiadau priffordd a bws gogledd-de, a chysylltiadau i gerddwyr a beicwyr: Er bod rhanddeiliaid yn croesawu'r buddsoddiad lleol diweddar yn y rhwydwaith priffyrdd, a'r farn y byddai hynny'n cael effaith strategol bellgyrhaeddol, ystyriwyd nad oedd integreiddio digonol rhwng y gwahanol ddulliau teithio, a diffyg hygyrchedd lleol. • Datrys tagfeydd traffig i'r Porthladd o Benfro a Johnston: Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod datblygiadau a oedd yn ddibynnol ar ffyrdd yn y Porthladd yn achosi tagfeydd tuag at aneddiadau cyfagos Penfro a Johnston.	Pob un	INV4, INV7, INV9
Mynd i'r Afael â Chyfyngiadau ar Safleoedd: Nid yw safle gwag o reidrwydd yn golygu nad oes galw amdano (CSI4) Er bod tystiolaeth bod safleoedd strategol yn wag, roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â chyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â'r safleoedd eu hunain (fel cyfyngiadau ar gyfleustodau/growthio dŵr daear) a oedd yn gwaethygu'r 'bwllch gwerth' a fodolai eisoes. Roedd nifer o rhanddeiliaid o'r farn y dylid mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol er mwyn datrys cyfyngiadau ar safleoedd.	Pob un	INV5
Mynediad at adnoddau naturiol (CSI5) Gyda mynediad da at adnoddau naturiol, gan gynnwys ynni'r tonnau a'r llanw, ardaloedd arfordirol a diwydiannau ar y tir, fel amaethyddiaeth a choedwigaeth, ystyriwyd bod adnoddau naturiol yn fantais allweddol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod pwysau a achosir oherwydd cystadleuaeth rhwng y sector twristiaeth a sectorau twf eraill yn agwedd y mae angen ei rheoli'n barhaus.	Pob un	INV1, INV4, INV7

³⁴Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru (2015) Dyheadau pum mlynedd

³⁵https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/777021/WEST_WALES_PARKWAY_STATION_SCOPING_STUDY_FINAL.pdf

Sgiliau

Mae'r economi amrywiol (yn y gorffennol a'r presennol) yn yr Ardal Fwy na Lleol yn golygu bod amrywiaeth eang o sgiliau ar gael, gyda chryfderau neilltuoel yn y diwydiannau sy'n gysylltiedig ag ynni, gweithgynhyrchu, bwyd ac amaethyddiaeth.

Er hynny, mae rhai rhanddeiliaid o'r farn bod prinder sgiliau mewn rhai swyddi, yn enwedig ar lefelau canol gyrfaedd.

Tabl 7 Cryfderau a Gwendidau o ran Sgiliau

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Amrywiaeth eang o weithlu â sgiliau cryf, ond mae gyrfaedd cynnar-canol yn brin (SK1) Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod sbectrwm llawn o sgiliau o fewn yr ardal, a chanfyddiad o weithlu a chanddo sgiliau cryf, yn seiliedig ar sectorau hanesyddol yr ardal. Fodd bynnag, wrth adolygu'r data'n fanylach, ymddengys fod galwedigaethau'n cael eu diberfeddu, fel y nodwyd yn Arolwg y Gweithlu Llafur, gyda chyfran fwy o Reolwyr ac Uwch Swyddogion yn Sir Benfro, ochr yn ochr â niferoedd mwy o Alwedigaethau Elfennol a chynnydd sydyn yn niferoedd y crefftiau medrus o gymharu â chyfartaleddau rhanbarthol y FfDC. Yr oedd canfyddiad bod brand Ffordd o Fyw yr ardal yn ffactor deniadol wrth i bobl benderfynu a oeddent am adleoli i'r ardal. Mae galwedigaethau yn Sir Gaerfyrddin yn debycach i'r cyfartaledd rhanbarthol, er bod mwy o alwedigaethau crefftiau medrus a galwedigaethau gwerthu / gwasanaethu cwsmeriaid.	Pob un	INV8

Cydgysylltu, Rhwydweithiau a Chymorth Busnes

Canfu'r astudiaeth rywfaint o dystiolaeth o gydgysylltu, o gymorth busnes a rhwydweithiau, ond ymddengys fod hyn y digwydd ar wahanol lefelau ar draws sefydliadau amrywiol, ac ystyrir bod cyfle i wella'r gefnogaeth ar draws yr Ardal Fwy na Lleol.

Tabl 8 Cryfderau a Gwendidau o ran Cydgysylltu a Rhwydweithiau Busnes

Cryfderau / Gwendidau	Daearyddiaeth	Ymyrraeth Gyfatebol
Tystiolaeth bod rhai rhwydweithiau busnes presennol yn gweithredu ar lefel menter (CSN1) Er bod cyngor busnes cyffredinol yn cael ei hyrwyddo drwy Busnes Cymru, Rhwydwaith Busnes Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Chanolfan Arloesi'r Bont, ystyriwyd bod y rhwydweithiau i ddatblygu busnes yn gyffredinol yn brin.	Pob un	INV7

Cydgysylltu rhannol rhwng awdurdodau ar hyn o bryd o ran ymholiadau ynghylch datblygu (CSN2) O ymgysylltu â rhanddeiliaid, daeth yn amlwg bod Llywodraeth Cymru yn rheoli ymholiadau strategol, tra bo cynghorau sir unigol yn rheoli ceisiadau graddfa lai am le datblygu. Ystyriwyd bod y galw'n gryf, gyda thystiolaeth o restrau aros ar gyfer unedau llai na 5,000 troedfedd sgwâr. Fodd bynnag, nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd yr ymholiadau hyn yn cael eu hailgyfeirio i safleoedd eraill ar draws y pedwar awdurdod.	Pob un	INV3, INV7
--	---------------	-------------------

5 Yr Ardal Fwy na Lleol: Adeiladu ymyraethau yn seiliedig ar gyfleoedd a bygythiadau o fewn y farchnad

5.1 Trosolwg

Ochr yn ochr â gwaith i nodir cryfderau a gwendidau'r ardal fwy na Lleol, mae gwaith llinell sylfaen hefyd wedi amlygu nifer o gyfleoedd a bygythiadau clir. Mae llawer o gyfleoedd yn gysylltiedig â sectorau allweddol a nodir uchod, tra bo eraill yn gysylltiedig â threfniadau gweithio yn y dyfodol neu waith / ymyraethau ar safleoedd penodol.

Yn y rhan hon o'r adroddiad ceir crynodeb o'r cryfderau a'r bygythiadau a nodwyd, gyda ffocws ar safleoedd strategol a'r strwythur economaidd i gefnogi twf a buddsoddiad yn fwy cyffredinol. Yn unol â'r Canllawiau Ymarfer, cyflwynir y canfyddiadau ar ffurf ymyraethau strategol, o dan nifer o is-benawdau allweddol, ac maent yn berthnasol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, oni chyfeirir yn benodol at ardal ddaearyddol o fewn y rhanbarth (ee, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin neu safle penodol).

5.2 Ymyraethau Sector

Manteisio i'r eithaf ar gryfderau sector presennol

INV1 Gwneud y gorau o gryfderau sectorau cyflenwol drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol ac ychwanegu gwerth: Drwy adeiladu ar fanteision economïau cyflenwol (ES1) a chryfderau sectorau presennol (KS1-6) ymddengys fod sectorau clir y gellir sicrhau synergeddau a manteision cyflenwol eraill drwyddynt. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, **mae tabl 10** isod yn disgrifio enghreifftiau o'r cryfderau sector cyflenwol hyn.

Tabl 9 INV1 Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
ES1, KS1, KS2, G1	Bwyd a Thwristiaeth / Lletygarwch: Gellid cynnwys ansawdd cynnyrch yn yr Ardal Fwy na Lleol i raddau mwy yn y cynnig i ymwelwyr, a dylai fod yn rhan o apêl y gyrchfan. Mae rhai gweithgareddau'n bodoli (ee, Wythnos Pysgod Sir Benfro) ond ceir cyfle i wneud mwy i hyrwyddo cynhyrchwyd lleol ac ennyn diddordeb ymwelwyr yn y sector (ee, llwybr/teithiau bwyd a diod).	Ar ôl archwilio hyn ymhellach yn y Gwerthusiad o Wyliau Bwyd ³⁶ , ceir tystiolaeth glir i awgrymu y gall gwyliau a digwyddiadau bwyd godi proffil bwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol / ac arno'r brand Cymreig, gan gefnogi busnesau mewn sectorau bwyd allweddol. Gan adeiladu ar 'Gynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Cymru (2015-2020)', mae'r ymchwil yn mynd ati ymhellach i nodi pwysigrwydd strategol gwyliau bwyd i arddangoswyr. Gall hyn fynd y tu hwnt i werthiant uniongyrchol, a chynnwys cyfleoedd Ymchwil a Datblygu a rhwydweithio, adeiladu lle ac integreiddio twristiaeth bwyd yn llawn yng ngweithgareddau Croeso Cymru.	- Ystyried datblygu a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau bwyd wedi'i chydgysylltu ar draws yr awdurdodau. Gallai hyn gynnwys gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes trafnidiaeth a digwyddiadau er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu rheoli'n ofalus oddi mewn i'r cyfyngiadau presennol ar seilwaith. - Drwy weithio gyda Thimau Tref, y Tîm Datblygu Bwyd a mentrau wedi'u lleoli mewn trefi, ystyried datblygu rhwydwaith sy'n sicrhau y gall darparwyr a busnesau lleol ymgysylltu â digwyddiadau tymhorol.

³⁶Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Wavehill (Gwerthusiad o Wyliau Bwyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Ariannol Ebrill 2014-2015, o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/gwyliau-bwyd-yn-2015-gwerthuso.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
ES1, KS4, KS5, CSI5	Pren a Thai / Adeiladu: Mae'r Ardal Fwy na Lleol, ac yn enwedig rhannau o Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys ystadau mawr o goedwigoedd/goetir. O gyfuno ymgyrch i greu coetiroedd mwy cynhyrchiol, ac uchelgeisiau cenedlaethol yn gysylltiedig â dulliau adeiladu modern (DAM) yn y rhanbarth, mae'n bosib bod cyfle i adolygu manteision cynhyrchu pren i'r diwydiant adeiladu lleol, ac ystyried cyfleoedd am gyfleusterau adeiladu modiwlaid yn gysylltiedig â chynlluniau'r cynghorau i ddarparu tai.	Mae'r sector pren a choedwigoedd ledled Cymru wedi'i hen sefydlu, gyda thros 850,000 o dunelli o bren yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ³⁷ . Yn wir, nodwyd bod defnyddio pren Cymreig i gefnogi economi gylchol a darparu tai newydd yn gyfle yn <i>'Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru'</i> (Gorffennaf 2019) ³⁸ a'r <i>Polisi Adnoddau Naturiol</i> (2017) ³⁹ . Mae'r awdurdodau o fewn yr Ardal Fwy na Lleol hefyd yn dechrau ystyried pa gyfleoedd a allai fod yn gysylltiedig â hyn yn rhan o'r rhaglen adeiladu tai newydd fforddiadwy. Mewn ymchwil ddiweddar gan Arup, nodwyd bod Awdurdodau Lleol a chyrrff y sector cyhoeddus (fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) mewn sefyllfa dda i ystyried DAM ar eu safleoedd eu hunain, gan fod y rhain yn cynnig cyflenwad mwy sicr a chyson ⁴⁰ .	- Ystyried hyrwyddo'r Ardal Fwy na Lleol ar gyfer datblygiadau DAM, gan gyfeirio'n benodol at y ffaith bod adnoddau pren a marchnadoedd posibl yn agos at ei gilydd. - Ystyried darparu cymorth busnes i gwmnïau sy'n dymuno ehangu i brosesau DAM drwy ddefnyddio adnoddau lleol. Gweithio gydag arbenigwyr o fewn y sector i nodi safleoedd a chanddynt seilwaith cefnogol priodol (hy, agosrwydd at adnoddau a seilwaith trafndiaeth). - Archwilio cyfleoedd i Gynghorau sydd yn rhan o'r ardal weithredu fel partner datblygu â darparwyr DAM, yn gysylltiedig â chynlluniau'r cyngor ar gyfer cyflenwi tai.
ES1, KS1, KS3, CSI5	Y Sector Mordeithiau a Thwristiaeth: Archwilio ac adolygu addasrwydd Abergwaun neu Aberdaugleddau ar gyfer economi'r sector mordeithiau.	Er bod twristiaeth yn cael ei hystyried yn sector allweddol o fewn yr economi Fwy na Lleol, ceir tystiolaeth o alw cynyddol am y sector mordeithiau yng Nghymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru, cafwyd cynnydd o 30% yn nifer y teithwyr ar fordeithiau yn Abergwaun o 2013 hyd 2019 ⁴¹ .	- Adolygu'r galw a ragwelir o fewn yr Ardal Fwy na Lleol o fewn y sector mordeithio. - Adolygu addasrwydd Harbwr Aberdaugleddau ac Abergwaun i dderbyn

³⁷ <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/welsh-government-woodland-estate/how-the-woodland-estate-benefits-wales/?lang=cy>

³⁸ Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2019) Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/strategaeth-ddrafft-ar-gyfer-adeiladu-tai-cymdeithasol_1.pdf

³⁹ Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol.pdf>

⁴⁰ Arup (2019) How Modern Methods of Construction can deliver more through the planning system <https://www.arup.com/perspectives/publications/research/section/how-modern-methods-of-construction-can-deliver-more-through-the-planning-system>

⁴¹ Llywodraeth Cymru (2018) 'Datblygu Gwyliau Mordeithiau yng Nghymru: Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru'

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
		Fodd bynnag, yr oedd canfyddiad bod cystadleuaeth ar hyn o bryd rhwng y galw am Harbyrau Aberdaugleddau ac Abergwaun fel cyrchfannau mordeithio, gyda graddfa ac agosrwydd at asedau twristiaeth eraill yn cael eu hyrwyddo fel manteision yn y naill achos a'r llall.	symudiadau o'r sector mordeithio a defnyddiau ochr porthladd.
KS1	Taro cydbwysedd o ran twristiaeth: Er bod y twf mewn lletygarwch ac yn niferoedd yr ymwelwyr sy'n gysylltiedig â digwyddiadau chwaraeon (fel Ironman Cymru) yn rhywbeth i'w groesawu, cyfeiriodd rhanddeiliaid at effaith y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar seilwaith.	Mae gan awdurdodau'r Ardal Fwy na Lleol gyfle i weithredu datrysiadau arloesol / cynaliadwy yn y prif gyrchfannau i ymwelwyr, er mwyn lliniaru pwysau cyfredol, ond cymhwyso datrysiad sy'n datblygu'n esiampl ar gyfer prif gyrchfannau tebyg mewn ardaloedd eraill, gan dario cydbwysedd rhwng pwysau a achosir a'r budd a ddaw yn sgil twristiaeth. Lle bo'n briodol, dylai datrysiadau o'r fath gynnwys y sectorau preifat (ee, gweithredwyr teithiau) neu rhanddeiliaid eraill (ee, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).	- Cynnydd tuag at raglen dymhorol o ddigwyddiadau, gan gynnwys y 'tymhorau ymylol' yn enwedig, fel bo modd cynllunio'n well a rheoli'r risg bydd gormod o bobl yn heidio i'r un lle. - Parhau i weithio er mwyn lliniaru'r pwysau ar dwristiaeth mewn prif gyrchfannau (ee, Martin's Haven) ac ystyried sut y gellid rheoli problemau mewn modd arloesol (ee, prosiectau enghreifftiol).
ES1, KS3, CSI5	Adnoddau Naturiol a Chynhyrchu Ynni: Mae'r adnodd naturiol yn yr Ardal Fwy na Lleol yn agwedd allweddol ar y gyrchfan, ac yn denu ymwelwyr yn ogystal â rhai sy'n adleoli i'r ardal i fwynhau ansawdd yr amgylchedd. Gyda thystiolaeth o gwmnïau sy'n llwyddo eisoes, mae'r adnodd hwn hefyd yn cynnig potensial gwych i gynhyrchu ynni - dylid defnyddio ynni morol, ynni ar y tir a thanwydd carbon	Yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2019), nodwyd bod potensial i gynhyrchu ynni solar mewn ardal sylweddol yng ngogledd Sir Benfro, a bod cyfran ogleddol Sir Gaerfyrddin (y tu allan i'r parciau cenedlaethol) yn addas ar gyfer ynni solar ac ynni'r gwynt ⁴² . Yn seiliedig ar ddrafftiau ymgynghori, bydd drafft Cynllun Morol Cymru drafft hefyd yn ystyried cyfleoedd i gynhyrchu ynni'r llanw ac ynni morol ⁴³ .	- Adolygu llwyddiannau mentrau presennol o ran cefnogi gwaith cynhyrchu ynni (hy, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau neu fentrau Rhyngwrwyd neu Ynni y Fargen Ddinesig). - Adolygu cyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy priodol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol (ee, ynni solar neu ynni'r gwynt ar y tir) fel y nodwyd yn y FfDC.

⁴² Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2019) <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/Drafft%20y%20Fframwaith%20Datblygu%20Cenedlaethol.pdf>

⁴³ Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2018) Drafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft-crynodeb-o-ymatebion.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	isel (fel hydrogen) er mwyn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio ehangach.		- Ystyried ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau er mwyn deall ffactorau sy'n atal datblygiad egin-brosiectau ymchwil ymhellach o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. - Ystyried lobïo llywodraeth ganolog er mwyn cael cefnogaeth ar gyfer ymchwil ynni morol a chyfleoedd ehangach a allai ddod i'r amlwg.
ES1, ES3	Cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r sector gwyddorau iechyd: Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod mentrau diweddar wedi galluogi twf yn y maes hwn, a chanfyddiad o hyder yn y farchnad o ran datblygu a gweithgynhyrchu cynnyrch gwyddor bywyd. Gallai gwaith datblygu busnes barhau i gefnogi cwmnïau a thwf o fewn y maes hwn.	Gyda'r FfDC (2019) yn nodi gwyddorau bywyd fel sector allweddol a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn hyrwyddo Pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant yn Llanelli, a'r Egin yn Sir Gaerfyrddin, mae angen cynnal momentwm o fewn y sector hwn.	- Sicrhau bod busnesau perthnasol yn cael eu cefnogi a'u halinio â phrosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes. - Cynnal momentwm yn gysylltiedig â'r sector hwn, o gofio'r pwyslais drwy'r Fargaen Ddinesig.
ES1, KS2, MS1	Cefnogaeth i'r Sector Bwyd (ffermio a physgodfeydd): Yn gysylltiedig â chryfder y sector amaethyddol, mae cynhyrchu a phrosesu bwyd yn gryfder ar draws yr Ardal Fwy na Lleol. Yn ogystal â hyn, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai newidiadau ar raddfa facro-economaidd (Brexit) gefnogi cyfleoedd datblygu mwy yn sector dyframaethu a physgodfeydd o fewn y Ddau Gledau.	Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygu a hyrwyddo Cymru yn weithredol fel cenedl fwyd ers 2010. Yn sgil ymgynghoriad diweddar i ddatblygu'r sector bwyd a diod ymhellach ⁴⁴ , ceir camau i wella cynhyrchiant y sector, cynyddu graddfa'r sector, datblygu clystyrau ar sail sector ac ymroi'n weithredol i hyrwyddo brand bwyd Cymru. Fodd bynnag, mae gwaith cychwynnol gan Lywodraeth Cymru wedi dangos y bydd Brexit yn amharu'n aruthrol ar y sectorau bwyd ac amaethyddiaeth. O safbwynt gwerth, mae 73% o'r bwyd a'r diod sy'n cael ei allforio yn mynd i'r	- Sicrhau parodrwydd i ymateb i newidiadau yn y galw drwy gysylltu â busnesau allweddol a Llywodraeth Cymru er mwyn cael dealltwriaeth bellach o'r galw, a thrwy adolygu cyfleoedd i symleiddio mesurau cynllunio. - Gan adeiladu ar ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru, ystyried cyfleoedd i gefnogi datblygiad clystyrau sy'n seiliedig ar y sector bwyd, gan ganolbwyntio ar gadwynau cyflenwi.

⁴⁴Papur Ymgynghori Llywodraeth Cymru (2019) <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynggori-bwyd-a-diod.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
		Undeb Ewropeaidd, ac mae cyfran sylweddol o'r gweithlu yn y sector hwn yn dod o wledydd yr UE y tu allan i'r DU. Mewn ymgynghoriad diweddar ar amgylchedd rheoleiddio cymhleth pysgota mewn byd ar ôl Brexit, nodwyd y gallai newidiadau macro-economaidd greu cyfleoedd i ddatblygu'r sector hwn ymhellach.	
KS6	Cefnogaeth i ddiwydiannau creadigol: Ar sail y gefnogaeth ranbarthol barhaus i'r diwydiannau creadigol drwy'r Fargen Ddinesig, a'r canfyddiad y bydd y galw am unedau llai yn parhau ymhlith busnesau creadigol bach a chanolig, gallai'r awdurdodau barhau i gefnogi'r diwydiannau hyn.	Mae Bargaen Ddinesig Abertawe yn nodi Caerfyrddin a'r Egin fel clwstwr creadigol a digidol. Agorwyd S4C yn swyddogol y llynedd, ac mae'r adeilad eisoes bron a bod yn llawn. Mae ail gam o waith wedi'i gynllunio (gan ychwanegu 4,250 metr sgwâr arall o arwynebedd llawr masnachol i fusnesau'r sector creadigol ⁴⁵ . Rhagwelir y bydd twf yn parhau i fod yn gyfyngedig ar draws y sector, ond roedd gan nifer o fusnesau llai agwedd optimistaidd ynghylch twf yn y dyfodol.	- Sicrhau bod busnesau perthnasol yn cael eu cefnogi a'u halinio â phrosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes. - Cynnal momentwm yn gysylltiedig â'r sector hwn, o gofio'r pwyslais drwy'r Fargen Ddinesig.

Ymateb i alw o fewn sectorau a chefnogi cwmnïau cynhenid

INV2 Archwilio opsiynau i ymateb i alw sectoraidd a chefnogi cwmnïau cynhenid drwy gynyddu hyblygrwydd wrth gynllunio: Sicrhau bod y system gynllunio yn gallu ymateb ynghynt i ymholiadau strategol a galw o du'r farchnad (MS4), archwilio cyfleoedd i gynyddu hyblygrwydd o ran cynllunio drwy symleiddio ardaloedd cynllunio neu friffiau datblygu rhagweithiol, a thrwy gefnogi cynlluniau adeiladu tybiannol sy'n galluogi trosiant o fewn y stoc graddfa lai. Gallai hyn nid yn unig gefnogi cwmnïau cynhenid presennol, ond datblygu'n fwyfwy pwysig os bydd Brexit yn golygu newid i gyflymder ymateb angenrheidiol y farchnad.

⁴⁵ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/newyddion/adolygiad-yn-argymell-cymeradwyo-prosiectaur-fargen-ddinesig/>

Tabl 10 INV2Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
MS4	Cyfyngu ar gyfleoedd 'a gollir': Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod risg o golli naill ai cyfleoedd neu ymholiadau o fewn y farchnad am ei bod hi'n cymryd cymaint o amser i sicrhau'r caniatâd datblygu angenrheidiol. Gallai ymyraethau gynnwys ymchwil bellach i'r defnydd o fesurau cynllunio wedi'u symleiddio, neu bolisi cynllunio hyblyg fel bo modd i'r farchnad ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid ac i'r ansicrwydd macro-economaidd.	Mae Gorchmynion Datblygu Lleol (LDOs) yn rhoi caniatâd ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad o fewn ardal ddiffiniedig, ac felly'n golygu nad oes angen i ddatblygwyr sy'n gweithredu oddi mewn i ffin yr LDO wneud cais am ganiatâd cynllunio ⁴⁶ . Er y gellir cyflwyno LDOs ar yr holl dir o fewn ardal Awdurdod Lleol, mewn ardal benodol o fewn ardal Awdurdod Lleol neu ar safle penodol, ni chaiff y rhain ganiatáu datblygiadau y byddai angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol arnynt, na datblygiadau a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar safle neu ddynodiad Ewropeaidd ⁴⁷ . Ceir enghreifftiau llwyddiannus o LDOs presennol yn Stad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw, Pentref Bwyd Norton Barton, ac Ardal Fenter Swydd Henffordd (HEZ). Os penderfynir bod angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar ddatblygiad, o dan Atodlen 1 neu 2 ⁴⁸ , ceir cyfle i ddatblygu briffiau datblygu manwl ynghylch y mathau o ddefnyddiau y gellid eu cefnogi a chynlluniau cyflawni seilwaith safle-benodol.	- Wrth gydnabod gofynion rhai cyflogwyr allweddol yn yr ardal ac mewn ymdrech i gynyddu apêl safleoedd fel mannau i fuddsoddi ynddynt, dylid cyflawni gwaith / dadansoddiadau pellach yn gysylltiedig â rôl bosibl LDOs mewn lleoliadau lle gwyddys beth fydd defnydd terfynol y safle (ee, parc bwyd). - Lle bo'r defnydd terfynol wedi'i ddiffinio'n llai manwl, gellid ystyried ymyraethau eraill a allai gefnogi defnyddwyr terfynol a symleiddio'r broses ddarparu (ee, Briffiau Datblygu / Cynlluniau Gweithredu Ardal / Canllawiau Cynllunio Atodol). - Gallai'r holl awdurdodau Mwy na Lleol gynnwys polisiau sy'n ddigon hyblyg i gefnogi safleoedd strategol presennol, ac i gefnogi tir cyflogaeth strategol newydd sy'n dod yn ei flaen, os ystyrir bod cefnogi rhaglen neu fuddsoddwr posibl drwy fodloni gofynion penodol ar-safle yn gam tyngedfennol. Gallai hyn sicrhau na chaiff potensial ei atal yn y dyfodol, a chaniatáu i safleoedd priodol/cynaliadwy ddod yn eu blaenau, os cyfyd galw i fuddsoddi ynddynt.
MS3, MS5	Mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ac asiantau, amlygwyd bod galw cudd am safleoedd ac eiddo llai o ansawdd uchel yn parhau . Er	Yr oedd canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid ac asiantau y gallai cwmnïau ddewis eu lleoli eu hunain ymhellach i'r dwyrain, lle mae gwerth canlyniadol y tir yn gyffredinol uwch, oherwydd prinder stoc masnachol a chyflogaeth newydd manyleb uchel.	Ystyried cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Banc Datblygu Cymru a chwmnïau preifat i ddod â safleoedd glân, gwastad, parod i adeiladu arnynt yn eu blaenau i greu lle 'symud ymlaen' o fewn y farchnad eilaidd.

⁴⁶ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017⁴⁷ Gweler Atodiad 1 – Gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer llunio LDO - PAS (2019) Gorchmynion Datblygu Lleol: Canllawiau i gynghorau ar lunio Gorchmynion Datblygu Lleol⁴⁸ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	mwyn cefnogi'r galw hwn, gallai ymyrraethau gynnwys cefnogi ceisiadau lle gellir dechrau adeiladu ar unwaith neu geisiadau adeiladu tybiannol, er mwyn creu lle ym marchnad eilaidd y stoc masnachol.	Yn ogystal â hyn, roedd asiantau o'r farn fod galw cyson am stoc eilaidd graddfa lai (llai na 5,000 troedfedd sgwâr), ond bod y lle 'symud ymlaen' yn aml yn brin, a'i bod hi'n bosibl mai gwerth isel iawn y rhent ar draws yr ardal a oedd wrth wraidd hyn. Mae Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd o blaid datblygiadau tybiannol ac adeiladu ymlaen llaw, heb ragosod neu ragwerthu (gweler INV3).	Ystyried a allai Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin wneud defnydd pellach ac elwa ymhellach ar y Gronfa Datblygu Eiddo, er mwyn dod â safleoedd bach damcaniaethol neu parod i adeiladu arnynt yn eu blaenau ar draws y rhanbarth. Byddai hyn yn galluogi cwmnïau sydd am dyfu i symud i le newydd o ansawdd uchel, neu adeiladu eu lle eu hunain, rhyddhau stoc eilaidd y clywir bod galw cudd amdano, a darparu eiddo amgen ar draws yr Ardal Fwy na Lleol a fyddai hefyd yn galluogi twf busnesau a gychwynnwyd o fewn y parciau cenedlaethol heb iddynt orfod symud yn rhy bell i ffwrdd.
MS2	Rhagwelir y ceir dirywiad mewn nifer o sectorau allweddol ar draws yr ardal, ond roedd hyder rhanddeiliaid yn y farchnad yn gryf, ac roedd nifer o fusnesau cynhenid yn ystyried ehangu. Dylid cefnogi cynlluniau i ehangu busnesau presennol i safleoedd sydd nesaf atynt neu gyfagos lle bo modd.	Er bod nifer o randdeiliaid yn cyfeirio at gysylltiadau lleol hanesyddol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac at ddiwylliant gwirioneddol o allgarwch o fewn yr ardal, yr oedd canfyddiad bod busnesau newydd yn cael eu ffafrio ar draul twf cwmnïau a oedd yn bodoli eisoes.	- Ystyried cefnogi twf cyflogwyr a safleoedd strategol presennol, gan gynnwys cadwynau cyflenwi lleol cyfagos. - Ystyried cydweithio mwy â chyflogwyr er mwyn deall eu hanghenion: a ydynt yn seiliedig ar y safle (ee, mwy / llai o le), yn seiliedig ar y gweithlu (ee, sgiliau / argaeledd staff) neu agweddau eraill (ee, cyllid).

Cryfder y Farchnad, y Cyflenwad a'r Galw

INV3 Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus: Ceir 'bwlch gwerth terfynol' heriol rhwng costau adeiladu a gwerth gorffenedig (MS3) ac ansicrwydd cynyddol ynghylch a fydd cyllid y sector cyhoeddus yn parhau (ES2). Gan hynny, gallai cynyddu ymwybyddiaeth o gronfeydd presennol a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth greu cyfle am fwy o fasnachadwyedd / entrepreneuriaeth yn y sector cyhoeddus, a helpu i gynyddu hyfywedd masnachol.

Tabl 11 INV3 Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
ES2, CSN2, MS3	Bwlch Gwerth: Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyllid i gwmnïau'r sector preifat er mwyn lleihau'r 'bwlch gwerth'. Mae gwaith wedi dangos bod llawer o fusnesau llwyddiannus mewn sectorau allweddol yn yr Ardal Fwy na Lleol wedi bod braidd yn ddibynnol ar gymorth ariannol (cymorth grant fel y Gronfa Datblygu Eiddo) yn y gorffennol er mwyn tyfu. I raddau helaeth, mae hyn yn adlewyrchu methiant y farchnad mewn sawl ardal yn y rhanbarth o ran costau datblygu yn erbyn gwerth terfynol y tir/ased. Nid yw'r sefyllfa economaidd hon yn debygol o newid yn y tymor byr i ganolog.	Hyd yma, mae llawer o'r cyllid wedi dod drwy gynlluniau a arweinir gan yr UE fel y Gronfa Datblygu Rhanbarthol (ERDF) neu'r Gronfa Strwythurol. Mewn byd ar ôl Brexit, ceir bygythiad gwirioneddol nad fydd lefel y cymorth a gafwyd yn y gorffennol yn parhau. Yn benodol, ceir potensial o oedi cyn sefydlu cyllid tebyg tra bo'r trefniadau ar ôl Brexit yn cael eu cadarnhau. Gallai hyn olygu bod twf busnesau cynhenid y rhanbarth yn arafu. Ar ben hynny, mae'r ddibyniaeth strwythurol hon ar gyllid y sector cyhoeddus, a'r 'bwlch gwerth' parhaus yn golygu ei bod hi'n fwyfwy heriol i egin-fusnesau ddangos mantolen nodweddiadol gref a chael mynediad at gyllid preifat drwy fenthycia yn erbyn yr ased. Sefydlwyd Banc Datblygu Cymru yn 2017, ac mae'n cynrychioli cyfle i roi cefnogaeth ariannol i fusnesau bach a chanolog. Fel cronfa gylchol hunangynhaliol, mae'r ffocws ar sicrhau bod strategaethau buddsoddi ac arian trethdalwyr yn cyflawni hyd yr eithaf. Drwy weithio ochr yn ochr â chronfeydd sy'n bodoli eisoes (fel Cronfa Eiddo Cymru, Cronfa Busnes Cymru a'r Gronfa Twf Cyfalaf), mae Strategaeth Banc Datblygu Cymru⁴⁹ wedi'i thargedu at gwmnïau bach a chanolog, gyda hyblygrwydd i gefnogi busnesau mwy.	Parodrwydd am Gyllid Ôl-Brexit / Ffyniant y DU ar raddfa leol Mapio dibyniaeth safleoedd a rhaglenni lleol ar gyllid sy'n dod o'r Undeb Ewropeaidd. Codi ymwybyddiaeth ynghylch y benthyciadau sydd ar gael Codi ymwybyddiaeth ynghylch y cyllid sydd ar gael, a chyllid macro-economaidd sy'n dod i'r amlwg yn dilyn Brexit, ymhlith cwmnïau'r sector preifat er mwyn lleihau'r 'bwlch gwerth'.
MS3, ES2, CSN2	Partneriaethau cyhoeddus-preifat: Yn gysylltiedig â sectorau allweddol, ystyried a allai Cyngorau Sir	Gall gweithio mewn partneriaeth fod o gymorth i sicrhau arian sefydlu ar gyfer buddsoddiadau'r sector preifat, dileu risgiau ar safleoedd datblygu a darparu seilwaith cefnogol hanfodol, sy'n gwneud datblygiadau'n fwy hyfyrw o safbwynt masnachol. Drwy	Gan gydnabod y bwlch gwerth / methiant y farchnad, a chan ragweld y posibilrwydd y bydd cyllid yn arafu yn dilyn Brexit, gallai awdurdodau ar draws yr Ardal Fwy na Lleol

⁴⁹ Banc Datblygu Cymru (Gorffennaf 2019) <https://developmentbank.wales/sites/default/files/2017-10/DBW%20Strategic%20Outline%20Brochure%20WELSH%20digital.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	gymryd rhan mewn partneriaeth datblygu â chwmnïau'r sector preifat. Gallai awdurdodau'r Ardal Fwy na Lleol gydweithio â'r sector preifat a phartneriaid eraill fel Banc Datblygu Cymru i archwilio strwythurau partneriaeth, cyfryngau i sicrhau cyllid a phecynnau ariannu posibl a allai helpu i ddatgloi safleoedd lle mae angen arian sefydlu i sicrhau'r budd mwyaf yn sgil datblygu.	fabwysiadu ymagwedd partneriaeth, gall Cyngorau fanteisio ar y mynediad sydd ganddynt at fenthyciadau rhad a'u sylfaen fawr o asedau. Yn ogystal, gall hynny wedyn fod yn fodd i fanteisio ar rinweddau'r sector preifat, fel disgyblaeth fasnachol, a'r gallu i drosoli yn sgil buddsoddiad cyhoeddus er mwyn cynyddu effaith economaidd y prosiect.	geisio cydweithio â'r sector preifat, Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i archwilio a datblygu partneriaethau / strwythurau llywodraethu / ariannu er mwyn dod â safleoedd heriol yn eu blaenau a lleihau'r 'bwlch gwerth'. Mae'r rhain ar gael ar hyn o bryd ar gyfer eiddo masnachol gwerth hyd at £5 miliwn, ond byddai angen i unrhyw strwythur gydnabod ffocws cymorth Banc Datblygu Cymru ar y sector preifat.

5.3 Ymyrraethau Gofodol

Cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol

INV4 Ymroi'n rhagweithiol i warchod asedau / tir sy'n galluogi gwireddu'r budd sy'n gysylltiedig â lleoliadau strategol yr Ardal Fwy na Lleol hyd yr eithaf: Dywedodd rhanddeiliaid mai asedau daearyddol a seilwaith sydd o bwysigrwydd rhanbarthol (**CSI1**, **CSI2** ac **CSI3**), fel y Porthladd dwfn sy'n wynebu'r gorllewin a ffyrdd ymuno ac ymadael y dwyrain-gorllewin i'r A40 / A48 / M4 yn Crosshands, oedd y prif resymau pam bod busnesau wedi'u lleoli eu hunain yn yr ardal yn y gorffennol. Bydd y galw am dir cyflogaeth ar draws y lleoliadau hyn yn newid dros amser, gydag amcanestyniadau cyfredol yn dangos dirywiad ar draws nifer o sectorau cyflogaeth. Serch hynny, mae'n bwysig cadw tir at ddefnydd cyflogaeth yn y lleoliadau hyn er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd rhanbarthol yr asedau'n cael ei gynnal, a pheidio colli cyfleoedd yn gysylltiedig â'r safleoedd yn y dyfodol.

Tabl 12 INV4Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
CSI1, G2	Gwarchod tir yn gyfagos ag Aberdaugleddau at ddefnydd cyflogaeth, ac yn enwedig y safleoedd hynny a chanddynt fynediad uniongyrchol i'r porthladd (naill ai drwy lanfa uniongyrchol neu bibell). Archwilio cyfleoedd i wella er mwyn creu mynediad tri modd (rheilffordd, dŵr a ffordd) a mynediad ochr porthladd at ddefnydd cyflogaeth o amgylch Porthladd Aberdaugleddau. Parhau i gefnogi datblygiad sy'n ei gwneud hi'n bosibl i drosglwyddo i economi carbon isel a di-garbon yn yr ardal.	O ystyried cryfder y gadwyn gyflenwi bresennol a holl fanteision lleoli yn ardal Aberdaugleddau, ceir canfyddiad o alw parhaus am fynediad i ochr y cei yn y porthladd dwfn yn Aberdaugleddau, gyda rhanddeiliaid yn cyfeirio at ymholiadau strategol anecdotaidd ynghylch lleoli yn ardal y Porthladd. Byddai colli safleoedd a chanddynt fynediad i'r lan yn golygu colli cyfleoedd am gyflogaeth â'r cysylltedd strategol hwn. Archwilio safleoedd tri modd: Ar hyn o bryd ystyrir nad oes ond nifer cyfyngedig o safleoedd a chanddynt fynediad at derfynfa reilffordd, ac nid oes yr safle a chanddo fynediad at derfynfa reilffordd a glanfa hefyd. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid trin nwyddau ddwywaith rhwng dulliau cludo, sy'n lleihau apêl strategol safleoedd o safbwynt cludo deunyddiau. Lle bo galw am hynny, ac ar ôl rhesymoli swyddogaethau presennol y safleoedd, dylid archwilio cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd tri modd cyffredinol (er enghraifft, cludyddion i lanfeydd neu derfynfeydd reilffordd). Paratoi i drosglwyddo i economi carbon isel: Yng ngoleuni targed sero-net ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, mae nifer o fusnesau presennol ar hyd y Ddau Gledau yn buddsoddi mewn seilwaith i gyrraedd y targedau datgarboneiddio a bodloni'r gofynion am ynni adnewyddadwy. Yn ogystal â hynny, mae cais diweddar Cyngor Sir Penfro i Gronfa Heriau'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer 'Teyrnas Ynni Aberdaugleddau' yn dangos cefnogaeth wleidyddol barhaus i drosglwyddo i'r economi carbon isel.	- Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, deall y galw strategol am safleoedd â mynediad tri modd ac ochr porthladd, a hyrwyddo manteision y safleoedd hyn oherwydd eu lleoliad strategol. - Ystyried gweithredu polisïau diogelu neu bolisïau cyfyngus ynghylch newid defnydd ar safleoedd sy'n gyfagos â'r Ddau Gledau, gyda mynediad i ochr y Porthladd, fel na chollir cyfleoedd cyflogaeth strategol yn gysylltiedig â'r porth Traws-Ewropeaidd hwn. - Parhau i gydweithio â busnesau presennol i ddeall y potensial i drosglwyddo i danwydd carbon isel neu amgen. - Cydweithio â'r sector preifat / tirlfeddianwyr i baratoi briffiau datblygu ar gyfer safleoedd strategol a disgrifio manteision lleoliadau yng nghyd-destun yr ardal 'Fwy na Lleol'. - Ystyried dynodiad polisi penodol ar gyfer safleoedd porth.

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
		Ar sail yr anogaeth i ddiwydiannau Porthladd ystyried tanwydd amgen ⁵⁰ a pharhad targedau carbon cenedlaethol a rhyngwladol, mae'n debygol y bydd ardal Aberdaugleddau yn dal i fod yn bwysig oherwydd ei lleoliad strategol, a hynny o safbwynt cyflogwyr tanwydd traddodiadol presennol ac egin-ddiwydiannau carbon isel.	
CSI3	Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y galw posibl am safleoedd cyflawni (safleoedd sy'n galluogi anfon, storio a choladu cynnyrch). Gwarchod a hyrwyddo tir sy'n gyfagos â choridor trafniadaeth allweddol y dwyrain-gorllewin ar draws Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac yn benodol y safleoedd hynny (fel Crosshands a Pharc Hendre) a chanddynt fynediad uniongyrchol i gyffyrdd â ffyrdd ymuno ac ymadael dwyrain/gorllewin i goridor yr A40 / A48 / M4 (T-ENT).	Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid, mae safleoedd cyflogaeth yn colli eu hapêl y tu hwnt i 5km oddi wrth y coridor trafniadaeth dwyrain-gorllewin. Yn y Cyd-gynllun Trafnidiaeth (2015-2020) nodwyd gwelliannau i'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd dwyrain / gorllewin strategol fel un o gamau allweddol y Cynllun Hirdymor, ac roedd Polisi KS2 yn manylu ar gynlluniau i wella dibynadwyedd amseroedd teithio rhwng aneddiadau allweddol a safleoedd cyflogaeth strategol. Bydd cysylltedd dwyrain-gorllewin felly'n ffocws wrth fuddsoddi ymhellach mewn trafniadaeth hyd 2020.	- Ystyried gweithredu polisïau i ffafrio defnydd cyflogaeth yn gyfagos â chyffyrdd chanddynt fynediad dwyrain-gorllewin i goridor yr A40 / A48 / M4. Ystyried dynodiad polisi penodol ar gyfer safleoedd porth. - Parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch paratoi model trafniadaeth cenedlaethol, gan gynnwys blaenoriaethu Safleoedd Strategol neu Safleoedd Strategol Posibl yn y Dyfodol ar sail cysylltedd strategol.
CSI3	Ceir sawl maes awyr yn Sir Benfro, rhai ohonynt yn hen ac eraill yn dal i gael eu defnyddio, a rhai yn gysylltiedig â hanes / presenoldeb y fyddin yn y Sir. O ystyried lleoliad y cyfleusterau hyn a'r ansicrwydd ynghylch y defnydd ohonynt yn y dyfodol, gellid bod angen cynnal adolygiad pellach o'r asedau hyn	Mae Maes Awyr Hwlfordd, er enghraifft, yn ased gweithredol pwysig, ond os bydd y parc bwyd yn llwyddo gellid bod galw am dir i ehangu yn yr ardal hon. Edrychwyd ar botensial y safle hefyd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Ymhellach i'r gorllewin, gallai Maes Awyr Brawdy (er nad yw'n weithredol ar hyn o bryd) gynnig cyswllt arall posibl yn y dyfodol, yn enwedig ar ôl cwblhau'r ffordd gyswllt gynlluniedig (sy'n osgoi	Adolygu a sefydlu dyheadau hirdymor ar gyfer teithiau awyr o fewn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac adolygu rôl asedau presennol er mwyn canfod a ddylid cyfuno'r rhain neu a ddylid ystyried unrhyw un ohonynt yn feysydd awyr rhanbarthol. Ystyried asedau gyda'i gilydd ac ochr yn

⁵⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (Medi 2019) <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/Letter-from-Lord-Deben-to-Grant-Shapps-IAS.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	ac ystyried eu rôl yn y dyfodol yn rhan o ymarfer uwchgynllunio ehangach. Er ei bod yn hanfodol cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol, gallai'r cynghorau adolygu'r cyfleoedd hirdymor am feysydd awyr yn yr ardal.	Niwgw ⁵¹ . Roedd Maes Awyr Brawdy yn un o asedau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a glustnodwyd i'w waredu neu ei newid cyn 2024, fel y nodwyd yn ei hadroddiad, Better Defence Estate (Tachwedd 2016) ⁵² .	ochr â gofynion ehangach yn gysylltiedig â defnydd tir. Ystyried defnyddiau amgen posibl ar gyfer asedau nad ydynt yn creu elw neu asedau anweithredol, gan gynnwys archwilio a ddylid cynnwys y rhain mewn uwchgynlluniau cyflogaeth cyfagos.

Ymyraethau ar safleoedd strategol

INV5 Cynllunio'n rhagweithiol am ymyraethau strategol wedi'u seilio ar safleoedd: Mewn gwaith dadansoddi safleoedd a gynhaliwyd er mwyn diffinio rhwydwaith o Safleoedd Strategol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, amlygwyd nifer o ymyraethau wedi'u seilio ar safleoedd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ar brofformas y safleoedd yn **Atodiad C**. Gall mentrau yn seiliedig ar safleoedd hefyd godi drwy ymyraethau ehangach fel INV1, INV2 neu INV3.

Adolygu mentrau gofodol presennol ac arfaethedig

INV6 Adolygu llwyddiannau a heriau yn gysylltiedig â mentrau gofodol presennol er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer cysyniadau newydd sy'n dod i'r amlwg (fel Ardal y Porthladd): Mewn adborth nodwyd bod safleoedd Ardaloedd Menter wedi profi llwyddiant cymysg, ac nid oedd nifer o randdeiliaid yn siŵr beth oedd pwrpas cyffredinol yr Ardaloedd Menter hynny. O ystyried bod cysyniadau newydd yn debygol o ddod i'r amlwg mewn ymateb i newid macro-economaidd (h.y. Brexit), dylid cynnal arfarniad o'r mentrau presennol er mwyn cynyddu effeithiau'r cynlluniau hyn hyd yr eithaf yn y dyfodol.

⁵¹ <https://www.sir-benfro.gov.uk/yystafell-newyddion/datgelur-llwybr-a-ffefrir-ir-cyhoedd>

⁵² Y Weinyddiaeth Amddiffyn (Tachwedd 2016) A Better Defence Estate

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576401/Better_Defence_Estate_Dec16_Amends_Web.pdf

Tabl 13 INV6 Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
CSI1	Adolygu cyfleoedd i gryfhau'r statws 'Porthladd Rhydd' : Yn ddiweddar, mae Awdurdod Harbwr Porthladd Aberdaugleddau wedi cyhoeddi uchelgeisiau i sefydlu Porthladd Aberdaugleddau fel 'porthladd rhydd' ac 'ardal borthladd'.	Mae 'Porthladd Rhydd' wedi'i ddiffinio fel offeryn polisi lle byddai'r porthladd yn cael ei ystyried fel porthladd y tu allan i diriogaeth tollau'r DU, ac felly wedi'i eithrio rhag trethi a thollau'r DU⁵³. Mae 'Ardal Borthladd' wedi'i disgrifio fel ardal fenter rymus. Yn ei hanfod, byddai'n sefydlu busnesau ffafriol, gweithdrefnau treth a chynllunio ar gyfer datblygu o fewn yr Ardal Borthladd er mwyn ysgogi gweithgarwch diwydiannol, gyda chysylltiad â gweithgareddau'r Porthladd ee, ynni⁵⁴. Mae trafodaethau yn gysylltiedig â'r cysyniad hwn yn parhau â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phorthladdoedd morol a meysydd awyr yng Nghymru.	- Cefnogaeth barhaus i Borthladd Aberdaugleddau wrth archwilio'r cysyniad Ardal Borthladd / Porthladd Rhydd. Dylai'r awdurdodau Mwy na Lleol geisio deall yn llawn y budd posibl i ardal Aberdaugleddau yn sgil dynodiad o'r fath, er mwyn cynghori darpar fuddsoddwyr ac / neu fusnesau cynhenid a allai elwa o fenter o'r fath. - Ystyried sut y gellid symleiddio trefniadau cynllunio i ategu hyn.
ES3	Adolygiad o Ardaloedd Menter : Er mwyn adlewyrchu'r farn gymysg ynghylch llwyddiant yr Ardaloedd Menter, adolygu'r graddau y mae'r dynodiadau hyn wedi esgor ar fanteision neu sicrhau twf.	Hyd yma bu llwyddiant yr ymyraethau hyn (a oedd yn cynnwys ymyraethau defnydd tir ac ar gyfer prosiectau penodol / ymyraethau ariannol) yn gymysg: - Ni welwyd bod Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi creu newid/buddsoddiad ar raddfa fawr yn yr ardal, ac mae'r Ardal yn gwrthdaro'n rhannol â rhai o'r dynodiadau amgylcheddol yn yr ardal. - Bu prosiectau'r Fargen Ddinesig, fel Yr Egin, yn llwyddiant ysgubol, ond teimlai rhanddeiliaid fod angen mwy o sicrwydd ynghylch darpariaeth a graddfeydd amser y cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Morol Doc Penfro. Er bod yr ymyraethau hyn yn dangos cryfder yr Ardal Fwy na Lleol, mae angen sicrhau ymwybyddiaeth lawn o'r holl fanteision, a chyfathrebu ynghylch y manteision hynny er mwyn	Dylai Sir Benfro gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu llwyddiant yr Ardal Fenter o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r ymholiadau hyd yma, y modd y gwnaed penderfyniadau o fewn yr ardal, yn ogystal ag adolygiad o ffin yr Ardal Fenter yn y dyfodol, gan gydnabod yr ystyriaethau a'r cyfyngiadau amgylcheddol o fewn yr ardal. Yn ogystal â hyn, dylid adolygu manteision llawn yr Ardal Fenter er mwyn gallu ymdrin ag ymholiadau yn y modd mwyaf effeithlon, a chyfeirio buddsoddwyr at yr Ardal Fenter lle byddai'r buddion yn cyd-fynd orau â'r ymholiad buddsoddi.

⁵³ <https://www.icaew.com/about-icaew/news/press-release-archive/2018-press-releases/regions-2018/help-welsh-ports-to-prosper-after-brexit>

⁵⁴ <https://www.icaew.com/about-icaew/news/press-release-archive/2018-press-releases/regions-2018/help-welsh-ports-to-prosper-after-brexit>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
		sicrhau bod prosiectau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn llwyddo hyd yr eithaf	

5.4 Rhwydweithiau ac Ymyraethau ar Sail Lle

Cydgysylltu, Rhwydweithiau a Chymorth Busnes

INV7 Gweithredu'n effeithiol ar draws awdurdodau ac ar draws adrannau: O ystyried y cynnydd yn y pwyslais ar weithio'n rhanbarthol ac ar draws ffiniau o fewn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae angen cynyddu'r graddau y mae y mae awdurdodau'n cydweithredu'n effeithiol i gefnogi twf economaidd cadarnhaol sy'n llai agored i ddiffygion mewn sectorau neilltuol. O ganlyniad i'r ansicrwydd macro-economaidd, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol, busnesau a rhanddeiliaid anelu i weithredu gyda'r feddylfryd o leihau bregusrwydd economaidd drwy edrych ar swyddogaeth yr ardal yn ei chyfanrwydd.

Tabl 14 INV7Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
MS4, CSI1, CSI2, CSI3, CSI5, CSN2	Hyrwyddo safleoedd: Ceir cyfle i weithio ar y cyd rhwng Cynghorau Sir, Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac adrannau o fewn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo safleoedd sydd ar gael yn weithredol ymhlith buddsoddwyr cenedlaethol a rhyngwladol.	Deellir mai Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd sy'n rheoli ymholiadau ynghylch tir cyflogaeth o natur strategol, a bod y cynghorau perthynol yn ymateb i ymholiadau'n gysylltiedig â gofynion graddfa lai. Mewn tystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid, gwelwyd canfyddiad o arafwch o ran y gallu i ddarparu ar gyfer yr ymholiadau hyn (gweler INV2).	- Cydweithio, gan gydnabod natur gyflenwol llawer o'r sectorau allweddol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol. Byddai hyn yn golygu bod y pedwar awdurdod yn gweithio heb ffiniau (o bosib drwy'r Cydbwyllgor Statudol Rhanbarthol) er mwyn cydnabod y budd a ddaw yn sgil sylfaen economaidd ehangach a mwy amrywiol ar draws yr ardal economaidd weithredol. - Drwy ddefnyddio'r rhestr o Safleoedd Strategol yn Atodiad C, datblygu portffolio manwl o safleoedd (gan adolygu asedau
	Gweithio gyda thirfeddianwyr: Gallai ansicrwydd macro-economaidd yn y dyfodol (fel goblygiadau Brexit neu'r penderfyniad i beidio bwrw ymlaen ag adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd) olygu bod asedau presennol o fewn yr ardal yn cael eu hailgyflunio. Dylid ystyried hyn yn gyfle i'r Cynghorau Sir dargedu'r 'defnyddiwr terfynol cywir' a chynyddu'r budd yn gysylltiedig â lleoliad strategol y safleoedd hyn hyd yr eithaf.		

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	Os bydd y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol at bartneriaeth gall hynny fod o gymorth i greu amgylchedd lle mae sefydliadau'n fwy tebygol o gydweithio a chynorthwyo'r naill a'r llall i ymdrin â rhwystrau datblygu. Dengys ymchwil gan Ffederasiwn Eiddo Prydain a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol⁵⁵ y gall hyn fod yn arbennig o bwysig os ceir heriau sylweddol naill ai i'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat, a gall strategaeth gyffredinol ar gyfer ymgysylltu wneud gwahaniaeth go iawn. Rheoli ymholiadau ynghylch safleoedd amgen: Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd o 'restrau aros' ar gyfer safleoedd llai (tua 5,000 troedfedd sgwâr neu lai). Er eu bod y tu allan i 'Ffocws Strategol' yr Ardal Fwy na Lleol, dylai Cynghorau gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ymateb i'r ymholiadau hyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol.	Roedd tystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid hefyd yn dangos bod newid yng nghyflogwyr strwythurol yn yr ardal (hy, cau Purfa Murco) yn galluogi arfarniad manwl o safleoedd. I'r perwyl hwn, fodd bynnag, mae angen i gyrff y sector cyhoeddus ymgysylltu'n fuan â chwmnïau'r sector preifat i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lleoliad strategol y safleoedd hyn. Mae angen mwy o gydgyssylltu hefyd rhwng gyrff y sector cyhoeddus er mwyn lleihau cystadleuaeth rhwng awdurdodau.	seilwaith allweddol a'u gwerth tebygol) yn erbyn ymholiadau strategol er mwyn deall sut mae galw strategol yn gyson â'r safleoedd hyn. - Gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat / tirfeddianwyr i baratoi briffiau datblygu ar gyfer safleoedd strategol, a nodi'r budd yn gysylltiedig â'r lleoliad yng nghyd-destun yr ardal 'Fwy na Lleol'. - Cynnal adolygiad er mwyn canfod lle byddai'n fwyaf effeithiol hyrwyddo i ddenu'r 'defnyddiwr terfynol cywir' a fyddai'n creu'r budd mwyaf posibl yn gysylltiedig â lleoliad strategol y safle. - Gweithio ar draws adrannau ac awdurdodau er mwyn cynorthwyo i lywio ymholiadau gan ddarpar fuddsoddwyr i leoliadau eraill yn ardal Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.
	Ymgysylltu â'r Farchnad: Gellir gwneud mwy o waith maes i ymgysylltu â'r farchnad a meithrin perthynas waith gryfach â busnesau allweddol presennol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol.	Yr oedd canfyddiad ymhlith rhai busnesau cynhenid o fewn yr ardal mai 'twf newydd' oedd yn cael y flaenoriaeth. Fodd bynnag, o gydnabod natur cyffredinol allgarol yr ardal, mae busnesau cynhenid yn fwy tebygol o fuddsoddi yn natblygiad cyffredinol y 'lle', y seilwaith a'r sgiliau.	Parhau i ymgysylltu â'r farchnad er mwyn cadw darlun cyfredol o gyflogwyr allweddol, ymholiadau buddsoddi a chyflogwyr graddfa lai a chanddynt gynlluniau twf uchel. Wedyn gellir cymhwyso'r cyd-destun a'r ddealltwriaeth yma i'r strategaeth safleoedd ac/neu weithredu mecanweithiau cymorth. Ar gyfer hyn, mae'n debygol y bydd angen

⁵⁵ <https://www.bpf.org.uk/sites/default/files/resources/BPF-Unlocking-Growth-Report.pdf>

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
			cymorth gan Busnes Cymru, Ardaloedd Menter a Banc Datblygu Cymru o ran gwybodaeth leol a datrysiadau ariannu.

Sicrhau ystod eang o sgiliau ar wahanol lefelau

INV8 Cynllunio datblygiad sgiliau a hyfforddiant mewn modd strategol i gyd-fynd ag anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol:

Oherwydd natur amrywiol yr economi Fwy na Lleol, mae gofynion cyflogwyr o ran sgiliau a chymwysterau yn amrywio'n helaeth. Dylid ymdrechu i gefnogi gofynion cyflogwyr allweddol o ran sgiliau, a chynllunio i fodloni anghenion y sectorau a nodwyd sy'n cynnig cyfleoedd / sectorau cyflenwol. Dylid datblygu'r cyfle, ochr yn ochr â'r budd yn gysylltiedig â'r lleoliad, a'u gwerthu er mwyn ceisio cadw pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Mae'r ymyrraeth hon yn debygol o ddod yn bwysicach fyth wrth i oblygiadau Brexit ddod i'r amlwg, gan fod rhannau sylweddol o'r gweithlu sectoraidd yn cynnwys gweithwyr yr UE o'r tu allan i'r DU⁵⁶, neu gallai newidiadau macro-economaidd gael effaith strwythurol a dwys ar ran benodol o'r gweithlu (hy, sectorau sy'n cynnwys dynion yn bennaf, neu swyddi a gyflawnir gan bobl ifanc).

Tabl 15 INV8 Ymyrraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
SK1	Mewn trafodaethau â chyflogwyr allweddol amlygwyd bylchau posibl o ran sgiliau, gyda ffocws neilltuol ar raddfeydd rheolwyr canol. Yn ogystal â hyn, byddai angen alinio datblygiad sgiliau ar draws yr Ardal Fwy na Lleol ag egin-	Ystyrir bod yr hyn a gynigir o ran 'lle' a ffordd o fyw yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn atynfa fawr i rai sy'n chwilio am gydbwysedd bywyd/gwaith gwell, neu rai sy'n dymuno byw a gweithio mewn amgylchedd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, ystyriwyd bod yr ased hwn yn denu Uwch Reolwyr a Swyddogion, a'i fod efallai'n llai deniadol i rai sy'n gadael yr ysgol neu wrth geisio denu rheolwyr canol. Ystyrir bod y ffactor hwn hefyd yn rhwystro posibl i ddrychafiad, gan fod llai o 'drosiant' naturiol yn y farchnad swyddi yn creu	- Cysylltu â sefydliadau a darparwyr addysg i sicrhau bod cyrsiau a hyfforddiant yn gyson â chryfderau sectorau ar draws yr Ardal Fwy na Lleol. - Wrth archwilio meysydd twf posibl yn y dyfodol (ee, pren a DAM), sicrhau bod sefydliadau addysgol yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau cynnar a'u bod yn ymwybodol o'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol yn gysylltiedig â chyfle o'r fath ar y cyfle cyntaf.

⁵⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgyngori-bwyd-a-diod.pdf>

	sectorau/sectorau twf (INV1), gan weithio gyda cholegau a phrifysgolion lleol a chyfleu'r cyfleoedd o ran gyrfa yn sectorau allweddol neu egin-sectorau'r ardal (ee, y diwydiant gwasanaeth, DAM ac ati).	canfyddiad o ddiffyg cyfle i symud ymlaen mewn gyrfa o'r graddfeydd is/canol. Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod sbectrwm llawn o sgiliau o fewn yr ardal, a chanfyddiad o weithlu a chanddo sgiliau cryf, yn seiliedig ar sectorau hanesyddol (ee, ynni). Fodd bynnag, wrth adolygu'r data'n fanylach, ymddengys fod galwedigaethau'n cael eu diberfeddu, fel y nodwyd yn Arolwg y Gweithlu Llafur, gyda chyfran fwy o Reolwyr ac Uwch Swyddogion yn Sir Benfro, ochr yn ochr â niferoedd mwy o Alwedigaethau Elfennol a chynnydd sydyn yn niferoedd y crefftau medrus o gymharu â chyfartaleddau rhanbarthol y FfDC.	• Ystyried ymhellach sut y gall ymyraethau ehangach neu newidiadau macro-economaidd (hy, Brexit) newid yr anghenion o ran sgiliau / hyfforddiant ar draws yr ardal fwy na lleol a chynllunio i ailhyfforddi/gynyddu sgiliau. • Hyrwyddo'r Ardal Fwy na Lleol ymhlith rhai sy'n gadael yr ysgol, gan weithio gyda chyflogwyr allweddol i roi amlinelliad clir o'r cyfleoedd a gynigir o fewn y rhanbarth.
--	--	--	---

Cysylltedd a lle

INV9: Sicrhau na chaiff asedau naturiol yr ardal eu tanwerthu mewn strategaethau buddsoddi yn y dyfodol, ond sicrhau bod y lle, y cysylltedd a'r seilwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â disgwyliadau gweithwyr medrus sydd am adleoli i'r ardal:

Tabl 16 INV9Ymyraethau Eang

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
G1	Sicrhau bod ansawdd asedau naturiol wedi'i adlewyrchu mewn seilwaith cymdeithasol: Mewn adborth gan randdeiliaid, ystyriwyd nad oedd seilwaith cymdeithasol (fel ysgolion, addysg a darpariaeth gofal iechyd) o reidrwydd yn adlewyrchu ansawdd uchel harddwch naturiol wrth geisio denu a chadw ystod o weithwyr proffesiynol medrus ac anfedrus yn yr ardal. Ystyrir y bydd 'Lle' yn hollbwysig er mwyn denu a chadw gweithwyr, a hefyd wrth gadw'r boblogaeth iau.	Mae 'Lle' yn amlwg yn ffactor sy'n denu pobl o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Mae hyn yn glir yn gysylltiedig ag apêl adnoddau naturiol (ee, cynhyrchu ynni morol / ar y tir) neu asedau daearyddol (ee, porthladd dwfn), yn ogystal ag apêl yr amgylchedd naturiol i rai sy'n symud i'r ardal i weithio (boed hynny gyda chyflogwr neu gartref). Ni ddylid tanwerthu'r ased naturiol hwn yn strategaethau buddsoddi'r dyfodol, a dylid parhau â'r ymdrechion i gynyddu apêl yr ased hwn ymhellach (ee, buddsoddi ymhellach mewn cysylltiadau digidol).	- Gweithio ar draws disgyblaethau i sicrhau y buddsoddir mewn gwasanaethau ategol allweddol a seilwaith cymdeithasol o fewn yr ardal. - Dylai'r awdurdodau Mwy na Lleol barhau i weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn ceisio uwchraddio a gwella seilwaith allweddol. Mae nifer o fusnesau yn yr ardal wedi cyfeirio'n arbennig at hygyrchedd a chysylltiadau rheilffyrdd sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd, oherwydd y cysylltiadau ehangach a gynigir i Lundain. - Dylai'r awdurdodau barhau i gydweithio i fuddsoddi mewn dulliau teithio llesol a'r seilwaith ar gyfer hynny, gan greu cysylltiadau ar draws y rhanbarth er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr, y naill a'r llall. Yn ei dro, gallai hyn greu cyfleoedd yn gysylltiedig â thwristiaeth beicio.
CSI3	Sicrhau bod cysylltedd yn cefnogi'r galw o fewn sectorau: Mewn adborth gan	Mae arian wedi cael ei fuddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth, ac mae	

Sbardunau	Ymyrraeth Eang	Sail Resymegol (Cyfleoedd / Bygythiadau)	Is-weithredoedd posib / Allbynnau ar sail safle
	randdeiliaid, ystyriwyd bod angen i gysylltedd (yn enwedig rhwng y gogledd a'r de) gyd-fynd â'r galw am dwf mewn sectorau ar draws yr ardal.	nifer o randdeiliaid wedi nodi bod gwelliannau i drafnidiaeth leol wedi gwneud gwahaniaeth strategol o ran cysylltedd. Fodd bynnag, ystyriwyd bod angen gwella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de.	

6 Alinio'r Galw a'r Ymyraethau Economaidd â Safleoedd sydd ar Gael

6.1 Trosolwg

Mae Canllawiau Datblygu Economaidd TAN23 a'r Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynlluniau Datblygu Lleol yn ysgogi, ar ôl cynnal adolygiad o'r galw ansoddol, y dylid alinio'r adolygiad hwnnw â gwaith asesu safleoedd o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Mae'r broses hon felly'n cynnwys crynodeb o'r is-adrannau a ganlyn:

Asesiad Meintiol

- Adolygu amcanestyniadau'n seiliedig ar y galw a chyfraddau defnydd (gweler Atodiad B); ac,
- Allbynnau'r Adolygiad Llinell Sylfaen Cyflym (Atodiad B) a sylwebaeth ar y farchnad gan randdeiliaid, y cafwyd crynodeb ohoni wrth asesu cryfderau a gwendidau (Adran 4).

Asesiad Ansoddol

- Adolygiad o'r cryfderau, y gwendidau a'r ymyraethau sydd wedi codi wrth baratoi'r astudiaeth (Adran 4 a 5); ac
- Adolygiad o'r safleoedd sydd ar gael o fewn yr Ardal Fwy na Lleol.

Dylid nodi nad pwrpas yr astudiaeth economaidd Fwy na Lleol yw darparu Adolygiad Tir Cyflogaeth manwl. Yn hytrach, mae'r astudiaeth wedi canolbwyntio ar ddiffinio lleoliad a rôl safleoedd cyflogaeth strategol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, yn ogystal â diffinio ymyraethau ehangach

6.2 Diffinio'r galw

Mae TAN23 yn cynghori y dylai asesiad o faint y galw a gwybodaeth ansoddol am yr economi fod o gymorth i lunio rhestr o safleoedd.

Amcanestyniadau

Yn Atodiad B nodir y gofynion tir cyflogaeth tebygol ar sail y newid mewn rhagolygon cyflogaeth ar draws sectorau eang. Yn gryno:

- **Rhagolygon Llinell Sylfaen:** Yn ôl senario rhagolygon llinell sylfaen, mae'n bosibl y ceir gostyngiad yn y gofyniad tir cyflogaeth o oddeutu - 4.78 hectar yn nau gyfnod y CDLI hyd at 2033. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd hon i bob pwrpas yn gosod enillion cyflogaeth mewn sectorau swyddfa a dosbarthu yn erbyn y swyddi a gollir o'r sector gweithgynhyrchu. Wrth archwilio'r rhagolygon llinell sylfaen sy'n canolbwyntio ar enillion cyflogaeth ar raddfa Sirol, ceir gofyniad am oddeutu **3.0 hectar o dir cyflogaeth i fodloni'r galw ar draws y**

sectorau swyddfa a dosbarthu o fewn yr Ardal Fwy na Lleol, gan gydnabod hefyd nad yw gostyngiad mewn swyddi o reidrwydd yn golygu gostyngiad yn y gofyniad tir, oherwydd gallai sectorau ddatblygu i fod yn fwy effeithlon drwy brosesau fel awtomeiddio.

- **Y Rhagolygon ar gyfer Cymru:** Drwy ddefnyddio rhagolygon Experian ar raddfa Cymru a chymhwyso lefelau twf cyfartalog i gyflogaeth gyfredol fesul sector eang yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, mae'r senario yn fwy cadarnhaol na'r rhagolygon llinell sylfaen. Er bod y rhagolygon yn parhau i ddangos dirywiad mawr yn y sector gweithgynhyrchu ac felly'r galw am arwynebedd llawr B1c/B2, maent hefyd yn dangos mwy o dwf yn y sectorau swyddfa a dosbarthu. Mae'r senario gadarnhaol yn awgrymu gofyniad am oddeutu **6.44 hectar o dir cyflogaeth** ar draws yr Ardal Fwy na Lleol.
- **Rhagolygon Brexit:** Yn rhan o'r astudiaeth, comisiynwyd Experian i lunio Rhagolygon Senario 'Brexit heb gytundeb' ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (gweler **Atodiad B** am fwy o fanylion). Mae'r senario yn seiliedig ar ganlyniad 'dim cytundeb, dim cyfnod pontio' ac yn gyfystyr â gadael yr Undeb Ewropeaidd yn anhrefnus. Ar y cyfan, dangosai'r senario fwy o ddirywiad cyffredinol mewn rhai sectorau, gyda dirywiad mwy dramatig o gymharu â'r dirywiad mwy cyson yn y rhagolygon llinell sylfaen, gyda thwf arafach mewn sectorau eraill, yn enwedig yng nghyfnod cynnar y cynllun (2020/21), gyda'r twf cyffredinol heb ddal i fyny â senario'r llinell sylfaen. **Dyma'r amcanestyniad mwyaf negyddol o blith yr holl amcanestyniadau.**



Yn gryno, o ddadansoddi data rhagolygon Experian gwelir goruchafiaeth glir ymhlith sectorau nad ydynt yn perthyn i ddosbarth B yn economïau'r Ardal Fwy na Lleol. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ehangach yn gysylltiedig â sectorau fel gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, y mae hefyd yn adlewyrchu natur ddaearyddol yr ardaloedd sydd wedi'u cyfeirio'n fwy at sectorau fel twristiaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus, nad ydynt wedi creu galw mawr am dir yn y gorffennol. I danategu Rhagolygon Experian ceir hefyd ragolygon o ddiffyg twf cymharol mewn sectorau eraill.

Cyfraddau defnydd

Yn Atodiad A ceir adolygiad manwl o'r sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, ac sy'n cael ei pharatoi i gefnogi proses CDLI2. Mae cyfraddau defnydd yn ffordd arall o amcangyfrif y galw posibl neu debygol am

safleoedd, ond dylid cydnabod nad yw tueddiadau o'r gorffennol o reidrwydd yn adlewyrchu twf yn y dyfodol.

Mae Astudiaethau / Adolygiad Tir Cyflogaeth a gynhaliwyd yn yr Ardal Fwy na Lleol yn awgrymu bod mwyafrif y galw yn Sir Benfro yn dod o du busnesau bach a chanolig, a bod galw mwy strategol wedi'i leoli'n bennaf o amgylch Porthladd Aberdaugleddau. Dangosai Astudiaeth Tir Cyflogaeth gyfredol Sir Gaerfyrddin mai'r defnydd ar safleoedd presennol oedd 3.63ha yn 2017/18 ac mai cyfanswm y defnydd ar safleoedd wedi'u dyrannu oedd 2.71ha dros yr un cyfnod.

Mae'r data hyn yn awgrymu mai'r farchnad busnesau bach a chanolig sydd amlycaf mewn tueddiadau ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, a phrin yw'r defnydd o dir strategol yn ôl y cofnodion. Fodd bynnag, wrth ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol datgelwyd rhywfaint o gynlluniau i fuddsoddi ar raddfa strategol ar safleoedd fel Blackbridge, Llwynhelyg a Cross Hands.

Gwybodaeth anecdotaidd am y farchnad

Mae canllawiau TAN yn cydnabod bod cyfraniad yr economi gyfan at dwf economaidd yn bwysig. Yn y canllawiau, anogir awdurdodau cynllunio lleol i gydnabod arwyddion yn y farchnad a rhoi sylw i'r angen i lywio datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf priodol, y hytrach nag atal neu wrthannog datblygu. Yn ogystal â hyn mae PCC yn cynghori y dylid anelu i ddarparu'r tir sydd ei angen ar y farchnad wrth gynllunio defnydd tir economaidd, onid oes rhesymau da dros beidio gwneud hynny.

Cafwyd adborth ynghylch y galw o fewn y farchnad a chynigion datblygu yn y dyfodol drwy wybodaeth anecdotaidd gan randdeiliaid. Trafodir hyn yn fanylach yn Adran 4 a 5. Yn ôl asiantau'r farchnad, yr oedd galw am safleoedd cyflogaeth bach manyleb uchel, ond nododd cyflogwyr alw am ymyraethau ar safleoedd penodol. Roedd grwpiau ehangach o randdeiliaid yn cydnabod bod angen cadw'r budd yn gysylltiedig â lleoliadau i fodloni galw yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae ein gwaith dadansoddi wedi dangos bod yr Ardal Fwy na Lleol yn elwa ar ddyhead busnesau cynhenid i aros o fewn yr ardal, a pharhau i fuddsoddi a thyfu eu busnes.

Crynodeb o'r galw

Er bod y rhagolygon cyflogaeth yn isel ar gyfer yr ardal, ceir hyder cudd yn y farchnad, parodrwydd ymhlith busnesau cynhenid i aros a thyfu, ac awydd gan randdeiliaid i warchod manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol.

Er nad yw goblygiadau Brexit na newidiadau macro-economaidd eraill yn hysbys ar hyn o bryd, a bod rhagolygon o'r galw mewn nifer o sectorau yn dangos dirywiad neu ddiffyg twf, ceir sail resymegol fras i barhau i fynd ar drywydd y 'cyfleoedd strategol' sy'n gysylltiedig â manteision lleoliadol a chryfderau sectoraidd cyfredol. Yn wir, yn ôl TAN 23 Datblygu Economaidd 'efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw disgwyltiedig' er mwyn rhoi cyfle i fodloni'r galw.

Lle bo cyfiawnhad ar gyfer hynny, mae'r Canllawiau Ymarfer yn ystyried y gall targedau darparu tir fod yn uwch na'r galw a ragwelir, er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd bod asesiadau'n rhy isel, ac er mwyn sicrhau na chollir unrhyw gyfleoedd. Dylent hefyd ganiatáu hyblygrwydd, cystadleuaeth a dewis. Fodd bynnag, gall gorgyflenwad parhaus o dir cyflogaeth achosi niwed is yw'r cyflenwad tir a gynllunnir yn fwy na'r galw amdano, fel bod safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth yn aros yn wag am gyfnodau hir, gan atal y posibilrwydd o ddatblygu'r tir i ddibenion eraill.

I gydnabod yr uchod, mae'r astudiaeth wedi nodi portffolio o safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol yr ystyrir eu bod naill ai'n cynnig buddion strategol y dylid eu gwarchod (ee, Cysylltedd â Phorthladdoedd neu Ffyrdd), sy'n safleoedd strategol cyfredol a chanddynt botensial ar gyfer twf (ee, Llwynhelyg) neu a chanddynt y potensial i gyfrannu at ymyraethau datblygu economaidd ehangach (ee, Y Fargen Ddinesig). Ochr yn ochr â nodi safleoedd, mae'r astudiaeth wedi datblygu cyfres o ymyraethau arfaethedig sy'n amlinellu'r camau y dylid eu gweithredu er mwyn hyrwyddo twf strategol a chefnogi cyflogwyr.

6.3 Diffiniad o Safleoedd Strategol a'u Hargaeledd

Yn Nodyn Cyngor Technegol 23, nodir y dylai unrhyw astudiaeth Fwy na Lleol nodi safleoedd strategol presennol ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol cyfansoddol. Ystyrir mai safleoedd strategol yw safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol neu Fwy na Lleol, lle bydd dylanwad y safle yn mynd y tu hwnt i ffiniau'r ardal awdurdod lleol y mae ynddi.

Diffinio Safleoedd Strategol

Yn Adran 2.4 o'r adroddiad hwn, nodir mai'r 'man cychwyn' ar gyfer diffinio safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol yw **safleoedd sy'n fwy na 10ha**. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad manwl o gryfderau sectoraidd presennol a mentrau â blaenoriaeth (fel y Fargen Ddinesig a'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol), gellid ystyried bod diffiniadau'n seiliedig ar 'raddfa' yn rhy gaeth ac anhyblyg i gydweddu â natur amrywiol galw anecdotaidd y farchnad ar draws yr ardal.

Drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwaith blaenorol a gyflawnwyd gan Arup, adolygiad o'r diffiniadau presennol o Safleoedd Strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol, adolygiad o astudiaethau tir cyflogaeth strategol presennol ac asesiadau economaidd Mwy na Lleol a gynhaliwyd ledled Cymru, mae'r canlynol yn ceisio cydnabod achosion o amrywio wrth ddiffinio'r safleoedd hynny sy'n strategol bwysig, yn dibynnu ar y cyd-destun, a lleihau gorddibyniaeth ar unrhyw fath neilltuol o safle.

Tabl 17 Hierarchaeth Safleoedd Cyflogaeth Strategol

Diffiniad	Safle Strategol	Trefn y Safleoedd
Safle Strategol Rhanbarthol Mwy na Lleol	Safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a chanddynt rôl hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion datblygu economaidd cenedlaethol neu gefnogi blaenoriaethau twf mewn sectorau economaidd allweddol.	Prif Safle - Safle dros 10ha sydd yn ddigon mawr i'w ddatblygu ac ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn sectorau twf.
Clwstwr Cefnogi Safle Strategol Mwy na Lleol	Safleoedd wedi'u halinio â sectorau twf strategol neu flaenoriaethau lleol a rhanbarthol, ond sydd yn gweithredu ar ffurf clwstwr o safleoedd. Bydd y rhain yn aml yn cyflawni rôl gefnogol i Safle Strategol a nodwyd neu gadwyn gyflenwi i gyflogwr allweddol.	Safle Eilaidd - Safleoedd strategol a fydd yn cefnogi twf mwy cynhenid, cynlluniau cwmnïau presennol i ehangu a buddsoddiad ar raddfa ganolog. Gyda'i gilydd mae'r safleoedd hyn yn creu cyfanswm o fwy na 5ha ac yn agos yn ddaearyddol.
Safle Porth Mwy na Lleol	Safleoedd sy'n gweithredu fel porth i'r farchnad Fwy na Lleol (fel y porthladdoedd neu'r safleoedd mawr sy'n gyfagos â choridor yr A40 / M4).	Prif Safle - Safle wedi'i leoli ger ased seilwaith ar gyfer porth allweddol.
Safle Strategol Posibl yn y Dyfodol yn yr Ardal Fwy na Lleol	Safleoedd a chanddynt y potensial i alinio â sectorau twf allweddol, neu y ceir mynediad iddynt ar drafnidiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, ond na ystyrir eu bod ar gael neu'n gyflawnadwy fel tir cyflogaeth ar hyn o bryd.	Safle Strategol Posibl yn y Dyfodol - Safle a allai fod yn addas i ddenu buddsoddiad sylweddol, ond lle bo angen gwneud gwaith sylweddol ychwanegol yn gysylltiedig â dichonoldeb i brofi a ddylid dyrannu'r safle yn Safle Strategol.

Yn y cam hwn, mae'n bwysig ailbwysleisio nad yw asesu safleoedd cyflogaeth lleol yn rhan o rôl yr astudiaeth Fwy na Lleol. Bydd yr asesiad hwn yn parhau i gael ei gyflawni gan Adolygiadau Tir Cyflogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol, gyda'r ffocws yn hynny o beth ar y safleoedd hynny a chanddynt arwyddocâd 'Mwy na Lleol'.

Rhestr ac Adolygiad o Safleoedd Strategol

Yn Atodiad C ceir rhestr fanwl o safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Casglwyd y rhain drwy adolygu gwybodaeth a ddarparwyd gan Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin am y stoc cyflogaeth presennol, adolygiad o'r **safleoedd a ymrwymwyd** (gan gynnwys rhai a hyrwyddwyd drwy'r Cynlluniau Lleol perthynol) a **safleoedd posibl** (gan gynnwys y rhai hynny a ddiffiniwyd yn safleoedd strategol o fewn y Cynlluniau Lleol perthynol sydd ar ddod, neu ddarpar safleoedd a gyflwynwyd drwy broses y CDLI).

Ceir crynodeb o'r broses ar gyfer didoli'r safleoedd hyn yn **Atodiad C** Safleoedd Strategol.

Adolygiad Cryno o'r Rhestr a'r Arfarniadau o Safleoedd Strategol

Yn ôl y Canllawiau Ymarfer, mae'n ofynnol i'r astudiaeth Fwy na Lleol, yn achos safleoedd strategol, geisio disgrifio pwrpas dyraniadau strategol presennol ac arfaethedig a nodwyd a'r defnydd ohonynt, ynghyd â'u maint a'u prif nodweddion eraill. Dylai hyn gynnwys y dull o nodi safleoedd er

mwyn bodloni'r galw am sectorau cyflogaeth penodol, ochr yn ochr ag ystyriaeth ynghylch a oes unrhyw safleoedd yn debygol o fod yn fwy addas at ddefnydd arall, neu'n llai deniadol i fuddsoddwyr neu a oes angen nodi safleoedd strategol newydd.

Ar ôl cwblhau'r asesiad uchod, penderfynwyd mai'r canlynol yw'r rhestr fer derfynol o Safleoedd Cyflogaeth Strategol 'Mwy na Lleol'. Ceir mwy o fanylion yn **Atodiad C**.

- Clwstwr Abergwaun ac Wdig
- Trecŵn
- Clwstwr Llwynhelyg
- Purfa Olew Aberdaugleddau (Puma Energy)
- South Hook LNG
- Clwstwr Ystâd Ddiwydiannol Thornton
- Clwstwr Doc Penfro
- Blackbridge
- Waterstone (terfynell Dragon LNG)
- Purfa Olew Penfro (Valero)
- Gorsaf Bŵer Penfro
- Clwstwr Doc Penfro
- Clwstwr Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Penfro
- Ystad Ddiwydiannol Heol Waterloo a Heol Llundain
- Y Bynea, Llanelli
- Trostre, Llanelli
- Dafen, Llanelli
- Cross Hands
- Parc Hendre
- Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli

6.4 Alinio'r Galw a'r Ymyraethau Economaidd â Safleoedd sydd ar Gael

Yn ôl y Canllawiau Ymarfer dylai casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth Fwy na Lleol gychwyn drwy roi cyngor strategol ynghylch cyfeiriad yr ardal yn y dyfodol o ran darparu safleoedd cyflogaeth, ymhle y dylai'r safleoedd hyn fod, a pha farchnadoedd y dylid eu targedu.

Yn **Atodiad C** manylir ar ymyraethau safle-benodol, ac argymhellir categori ar gyfer y safleoedd hyn. Ar sail amcanestyniadau cyfredol, mae'n hollbwysig nodi yn y cam hwn bod digon o dir strategol ar gael i fodloni'r galw. Y sail resymegol dros gadw safleoedd yn **Atodiad C** yw datblygu portffolio o safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol yr ystyrir eu bod naill ai'n cynnig buddion strategol y dylid eu gwarchod (ee, Cysylltedd â Phorthladdoedd neu Ffyrdd), sy'n safleoedd strategol cyfredol a chanddynt botensial ar gyfer twf (ee, Llwynhelyg) neu a chanddynt y potensial i gyfrannu at ymyraethau datblygu economaidd ehangach (ee, Y Fargen Ddinesig). Ochr yn ochr â nodi safleoedd, mae'r astudiaeth wedi datblygu cyfres o ymyraethau arfaethedig sy'n amlinellu'r camau y dylid eu gweithredu er mwyn hyrwyddo twf strategol a chefnogi cyflogwyr.

7 Casgliadau

7.1 Trosolwg

Pwrpas yr astudiaeth yn y pen draw yw creu sail i gynllunio darpariaeth tir ac eiddo strategol yn y dyfodol ar gyfer gweithgareddau economaidd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Drwy ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol, adolygiad manwl o lenyddiaeth yn gysylltiedig â mentrau sy'n bodoli eisoes yn yr ardal a thystiolaeth anecdotaidd a gafwyd drwy ymgysylltu ag asiantau marchnad a busnesau allweddol, nod y Strategaeth yw canfod a oes diffyg cyfatebiaeth ar hyn o bryd rhwng y cyflenwad o dir strategol ar gyfer cyflogaeth a'r galw amdano. Yn ogystal â hynny mae'n gwneud argymhellion ynghylch ymyraethau cadarnhaol a allai fod o gymorth i gefnogi twf economaidd.

7.2 Ymyraethau i gefnogi gweledigaeth economaidd a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf

Gan ddefnyddio'r cryfderau a'r gwendidau a amlinellwyd yn Adran 4, mae Adran 5 yr astudiaeth Fwy na Lleol yn datblygu ymyraethau sy'n codi o'r adolygiad llinell sylfaen cyflym, gwybodaeth anecdotaidd wedi'i darparu gan randdeiliaid a mentrau a amlinellwyd yn yr adolygiad llenyddol

Datblygu gweledigaeth economaidd: trosolwg o'r ardal

Mae'r Ardal Fwy na Lleol yn ardal amrywiol sy'n adnabyddus am gyfoeth ei hamgylchedd naturiol sy'n atynfa gref i'r rhai sy'n byw ynddi ac yn ymweld â hi. Y mae hefyd yn cynnwys asedau unigryw sydd wedi denu nifer o sectorau allweddol i'r ardal yn y gorffennol. Mae'r rhagolygon cyfredol yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, wrth i'r boblogaeth iau allfudo a phobl hŷn a phobl wedi ymddeol fewnfudo. Mae'r ardal eisoes yn elwa ar nifer o ymyraethau economaidd gan gynnwys Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r Ardal Fenter.

Nodweddir economi leol a rhanbarthol yr ardal gan nifer o sectorau allweddol, gan gynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth, y sector cyhoeddus a gweithgynhyrchu. Mae data rhagolygon yn awgrymu y bydd strwythur yr economi hon yn newid, gyda chyflogaeth yn tueddu i dyfu ar y cyfan ar draws sectorau fel twristiaeth, a gostyngiad yng nghyflogaeth sectorau fel gweithgynhyrchu a manwerthu. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na fydd y dirywiad hwnnw o reidrwydd yn lleihau'r galw am dir ac eiddo, am ei bod hi'n bosibl mai newidiadau effeithloni ac awtomeiddio sy'n sbarduno'r gostyngiad a ragwelir mewn cyflogaeth.

O ystyried natur wledig yr ardal, mae'r Ardal Fwy na Lleol yn dioddef bwlch gwerth terfynol, sy'n golygu bod penderfyniadau buddsoddi yn fwy anodd a bod angen cyllid grant, ymyrraeth y sector cyhoeddus neu fuddsoddiad cyfalaf mwy o'r sector preifat. O safbwynt cadarnhaol, canfuwyd brand

Cymreig cryf drwy'r gwaith a nifer o gyflogwyr allweddol sy'n perthnasu â'r ardal ac yn dymuno aros yno, gan greu budd i'r economi y maent wedi ymsefydlu ynddi. Mae 'Lle', felly, wedi dod i'r amlwg fel sbardun allweddol wrth ystyried dyfodol yr Ardal Fwy na Lleol, a bydd cynnal yr ansawdd cyfredol yn allweddol i gyflogwyr presennol, ac i gyflogeion sy'n ystyried symud i'r ardal.

Dylai'r Ardal Fwy na Lleol felly ganolbwyntio ar wneud y gorau o'i chryfderau a'i hasedau presennol, gan geisio canfod datrysiadau er mwyn cydweithio i leihau neu oresgyn y bwlch gwerth a all gyfyngu ar ddatblygiad/fuddsoddi. Dylai'r ardal geisio gwarchod asedau strategol fel eu bod yn esgor ar y budd mwyaf i'r ardal, yn ogystal ag ymroi'n rhagweithiol i gynllunio ar gyfer safleoedd strategol lle bo'r galw'n uchel.

Polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf

Mae ymyraethau sy'n debygol o gyfrannu at y weledigaeth economaidd ar raddfa fwy na lleol, a pholisiâu'n seiliedig ar feini prawf mewn CDLlau perthynol, felly'n canolbwyntio ar naw testun eang:

- **INV1** Gwneud y gorau o gryfderau sectorau cyflenwol drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol ac ychwanegu gwerth;
- **INV2** Archwilio opsiynau i ymateb i alw sectoraidd a chefnogi cwmnïau cynhenid drwy gynyddu hyblygrwydd wrth gynllunio;
- **INV3** Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus;
- **INV4** Ymroi'n rhagweithiol i warchod asedau / tir sy'n galluogi gwireddu'r buddion sy'n gysylltiedig â lleoliadau strategol yr Ardal Fwy na Lleol hyd yr eithaf;
- **INV5** Cynllunio'n rhagweithiol am ymyraethau strategol wedi'u seilio ar safleoedd;
- **INV6** Adolygu llwyddiannau a heriau yn gysylltiedig â mentrau gofodol presennol er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer cysyniadau newydd sy'n dod i'r amlwg (fel Ardal y Porthladd);
- **INV7** Gweithredu'n effeithiol ar draws awdurdodau ac ar draws adrannau;
- **INV8** Cynllunio datblygiad sgiliau a hyfforddiant mewn modd strategol i gyd-fynd ag anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol; ac,
- **INV9**: Sicrhau na chaiff asedau naturiol yr ardal eu tanwerthu mewn strategaethau buddsoddi yn y dyfodol, ond sicrhau bod y lle, y cysylltedd a'r seilwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â disgwyliadau gweithwyr medrus sydd am adleoli i'r ardal.

Wrth symud ymlaen, dylai'r awdurdodau cynllunio'r Ardal Fwy na Lleol ddatblygu, a chytuno ar system i olrhain yr ymyraethau hyn, a chynnal y system honno, gan gytuno ar ddangosyddion perfformiad perthnasol i

ddangos cynnydd, ac ystyried y rhain wrth ddatblygu polisi a hefyd wrth asesu ceisiadau.

7.3 Targedau a Galw Meintiol

Mae'r galw am dir cyflogaeth a ragwelir ar draws yr ardal yn amrywio rhwng 3ha a 6.4ha, gyda rhagolygon Brexit yn dangos dirywiad yn y rhan fwyaf o sectorau. Ceir manylion pellach am y rhain yn **Atodiad B**.

Er bod y rhagolygon cyflogaeth yn isel ar gyfer yr ardal, ceir hyder cudd yn y farchnad, parodrwydd ymhlith busnesau cynhenid i aros a thyfu, ac awydd gan randdeiliaid i warchod manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, gallai mentrau presennol yn yr ardal (fel y Fargen Ddinesig) gefnogi sail 'polisi gweithredol' er mwyn sicrhau rhagolygon cadarnhaol ar gyfer twf.

Lle bo cyfiawnhad ar gyfer hynny, mae'r Canllawiau Ymarfer yn ystyried y gall targedau darparu tir fod yn uwch na'r galw a ragwelir, er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd bod asesiadau'n rhy isel, ac er mwyn sicrhau na chollir unrhyw gyfleoedd. Dylent hefyd ganiatáu hyblygrwydd, cystadleuaeth a dewis. Fodd bynnag, gall gorgyflenwad parhaus o dir cyflogaeth achosi niwed is yw'r cyflenwad tir a gynllunnir yn fwy na'r galw amdano, fel bod safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth yn aros yn wag am gyfnodau hir, gan atal y posibilrwydd o ddatblygu'r tir i ddibenion eraill.

I gydnabod yr uchod, mae'r astudiaeth wedi nodi portffolio o safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol yr ystyrir eu bod yn cynnig budd strategol y dylid ei warchod (ee, Cysylltedd â Phorthladdoedd neu Ffyrdd), sy'n safleoedd strategol cyfredol a chanddynt botensial ar gyfer twf (ee, Llwynhelyg) neu a chanddynt y potensial i gyfrannu at ymyraethau datblygu economaidd ehangach (ee, Y Fargen Ddinesig). Ochr yn ochr â nodi safleoedd, mae'r astudiaeth wedi datblygu cyfres o ymyraethau arfaethedig sy'n amlinellu'r camau y dylid eu gweithredu er mwyn hyrwyddo twf strategol a chefnogi cyflogwyr.

7.4 Safleoedd a argymhellir

Ymyraethau ar Safleoedd

Yn Atodiad C manylir ar ymyraethau safle-benodol, ac argymhellir categori ar gyfer y safleoedd hyn. Ar sail amcanestyniadau cyfredol, mae'n hollbwysig nodi yn y cam hwn bod digon o dir strategol ar gael i fodloni'r galw. Y sail resymegol dros gadw safleoedd yn Atodiad C yw datblygu portffolio o safleoedd strategol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol yr ystyrir eu bod yn cynnig budd strategol y dylid ei warchod (ee, Cysylltedd â Phorthladdoedd neu Ffyrdd), sy'n safleoedd strategol cyfredol a chanddynt botensial ar gyfer twf (ee, Llwynhelyg) neu a chanddynt y potensial i gyfrannu at ymyraethau datblygu economaidd ehangach (ee, Y Fargen Ddinesig). Ochr yn ochr â nodi safleoedd, mae'r astudiaeth wedi datblygu

cyfres o ymyraethau arfaethedig sy'n amlinellu'r camau y dylid eu gweithredu er mwyn hyrwyddo twf strategol a chefnogi cyflogwyr.

Polisiâu ar Safleoedd Strategol a sicrhau hyblygrwydd

Mae pob un o'r Safleoedd Strategol wedi'u rhannu i categorïau yn erbyn y diffiniadau o Safleoedd Strategol, ac awgrymiadau wedi'u gwneud ynghylch y sectorau a gaiff eu halinio fel y 'ffit orau' i bob safle. Wrth awgrymu polisiâu i'w cynnwys yn y CDLLau sydd ar ddod, disgwylir i'r polisiâu hyn fod yn seiliedig ar y canlynol:

- Categoriaddio safleoedd, fel y nodir yn Nhabl 18 ac Atodiad C,
- Manteision yn gysylltiedig â lleoliad neu asedau, er enghraifft grwpiau lleoliadol bras fel yr arddangosir ar y diagram allweddol;
- Sectorau allweddol, fel y nodir yn Atodiad C.

Gallai pob awdurdod Mwy nag Lleol gynnwys **polisiâu digon hyblyg er mwyn cefnogi safleoedd strategol presennol**, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer **tir cyflogaeth strategol newydd** sy'n dod yn ei flaen, os ystyrir bod cefnogi rhaglen neu fuddsoddwr posibl drwy fodloni gofynion penodol ar-safle yn gam tyngedfennol. Drwy hyn gellid sicrhau na chaiff potensial yn y dyfodol ei atal, a chaniatáu i safleoedd priodol / cynaliadwy ddod yn eu blaenau os cyfyd galw i fuddsoddi ynddynt.

Monitro Llwyddiant

Dylai'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol o fewn yr Ardal Fwy na Lleol, drwy'r Swyddogion Datblygu Economaidd, barhau i ddatblygu a chynnal system i olrhain ymholiadau buddsoddi ar gronfa ddata gyfun gyffredin.

Wrth olrhain dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Sector;
- Maint yr ymholiad (arwynebedd y safle neu arwynebedd llawr);
- Prif ddosbarth defnydd;
- Manyleb;
- Rheswm dros yr ymholiad; ac,
- Os na ddaw buddsoddiad i'r amlwg, y rheswm dros beidio lleoli yn yr Ardal Fwy na Lleol.